Llywodraeth Cymru

# Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth ar gyfer Twristiaeth 2013-2020

## Adolygiad o Gynnydd y Strategaeth

**Tachwedd 2016**

## Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth ar gyfer Twristiaeth 2013-2020

## Adolygiad o Gynnydd y Strategaeth

## Rhagair cyd-destunol

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r cynnydd a wnaed yn erbyn y prif flaenoriaethau a bennwyd yn y strategaeth ar gyfer twristiaeth *Partneriaeth ar gyfer twf 2013-20*. Mae'n adolygu'r cynnydd yn ystod cyfnod y strategaeth hyd yn hyn ac yn cyflwyno'r prif faterion sy'n wynebu twristiaeth yng Nghymru yn ystod y cyfnod o'r strategaeth sy'n weddill, hyd at 2020.

Yn 2014, gwelwyd y lefelau uchaf erioed o ymweliadau dros nos i Gymru gan farchnad Prydain Fawr (10 miliwn o ymweliadau) a'r lefelau uchaf erioed o wariant cysylltiedig (£1,735 miliwn). Cynyddodd ymweliadau o dramor am y drydedd flwyddyn yn olynol (hyd at 932,000) gyda'r gwariant uchaf erioed (£368 miliwn).

Roedd ffigurau 2015 yn well byth, gan ragori ar y lefelau uchaf a gyrhaeddwyd yn 2014: Cynyddodd ymweliadau dros nos i Gymru gan breswylwyr Prydain Fawr i 10.45 miliwn, gyda'r gwariant cysylltiedig yn cyrraedd y lefel uchaf erioed, sef £1,975 miliwn. Cynyddodd ymweliadau o dramor i 970,000, gyda'r gwariant cysylltiedig uchaf erioed, sef £410 miliwn. Mae hynny'n golygu bod cyfanswm y gwariant gan ymwelwyr dros nos yn 2015 wedi cyrraedd £2,385 miliwn, cynnydd o 13.4% o gymharu â 2014, a thua 12% yn uwch na'r hyn yr oedd ei angen er mwyn cyflawni'r targed twf termau real o 10% erbyn 2020, a bennwyd yn y strategaeth *Partneriaeth ar gyfer twf*.

At hynny, yn 2015, cynyddodd cyflogaeth uniongyrchol ym maes twristiaeth yng Nghymru i 132,400, sef 10% o weithlu Cymru, ac mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer Gwerth Ychwanegol Crynswth yn dangos bod twristiaeth yn cyfrannu 6% o'r holl Werth Ychwanegol Crynswth yn economi gyffredinol Cymru.

Er bod yr holl ganlyniadau hyn yn gadarnhaol, yr her fydd cynnal cynnydd yn erbyn targedau yn ystod gweddill cyfnod y strategaeth, yn arbennig o ystyried newidiadau posibl o ran amodau economaidd ac amodau'r farchnad a datblygiadau gwleidyddol a thechnolegol.

Lluniwyd y ddogfen cyn y refferendwm ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd. Ni chofnodwyd effaith uniongyrchol y bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd ar dwristiaeth eto mewn ystadegau swyddogol ar berfformiad twristiaeth ac nid yw goblygiadau tymor canolig a thymor hwy gadael yr Undeb i dwristiaeth yng Nghymru yn glir eto. Byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau a chanfyddiadau yn ein Baromedr Twristiaeth rheolaidd ac arolygon perthnasol eraill ac yn ystyried ymatebion rhagweithiol, fel y bo'n briodol.

Lluniwyd y ddogfen hefyd cyn pencamwpwriaeth pêl-droed Ewrop, lle y gallai perfformiad ardderchog a phroffil uchel Cymru fod wedi ysgogi diddordeb pellach yng Nghymru mewn rhai marchnadoedd rhyngwladol. Fel gyda chanlyniad y refferendwm, mae'n bosibl na fydd effeithiau posibl y bencampwriaeth i'w gweld ar unwaith ond y gallent ddarparu llwyfan cadarnhaol ar gyfer gweithgareddau hyrwyddo dramor yn y dyfodol.

**CYNNWYS**

**1. CRYNODEB GWEITHREDOL**

**2. PERFFORMIAD A RHAGOLYGON**

**3. HYRWYDDO'R BRAND**
3.1 Nodau strategol
3.1 Cynnydd Hyd Yma
3.3 Blaenoriaethau hyd at 2020

**4. DATBLYGU CYNNYRCH**
4.1 Nodau strategol
4.2 Cynnydd Hyd Yma
4.3 Blaenoriaethau hyd at 2020
4.4 Sicrhau Ansawdd
4.5 Gwella Cysylltedd

**5. DIGWYDDIADAU MAWR**
5.1 Nodau strategol
5.2 Cynnydd Hyd Yma
5.3 Blaenoriaethau hyd at 2020

**6. DATBLYGU POBL**
6.1 Nodau strategol
6.2 Cynnydd Hyd Yma
6.3 Blaenoriaethau hyd at 2020

**7. MEITHRIN LLE**
7.1 Nodau strategol
7.2 Cynnydd Hyd Yma
7.3 Blaenoriaethau hyd at 2020

**8. PERFFORMIAD PROFFIDIOL**
8.1 Nodau strategol
8.2 Cynnydd Hyd Yma
8.3 Blaenoriaethau hyd at 2020

**9 PARTNERIAETH**
9.1 Nodau strategol
9.2 Cynnydd Hyd Yma
9.3 Blaenoriaethau hyd at 2020

**ATODIADAU**

**Atodiad 1: Perfformiad y Farchnad**

**Atodiad 2: Matrics y Farchnad**

# 1. CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae tair blynedd bellach ers lansio Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Twristiaeth 2013-2020 *Partneriaeth ar gyfer Twf* ac felly mae'n bryd adolygu cynnydd ac ailystyried blaenoriaethau ar gyfer twf ar gyfer gweddill cyfnod y strategaeth.

Cynhaliwyd adolygiad o gynnydd y Strategaeth o dan arweiniad Croeso Cymru ar y cyd â'r Bwrdd Cynghori Twristiaeth a'r Ffora Twristiaeth Rhanbarthol. Ystyriodd berfformiad diweddar y diwydiant a'r ffordd y gall newidiadau o ran amodau'r farchnad a'r amgylchedd gweithredu ehangach effeithio ar gyfleoedd twf a'r heriau sy'n wynebu'r economi ymwelwyr yng Nghymru hyd at 2020. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r sefyllfa bresennol ac yn nodi meysydd lle y caiff y strategaeth ei hadnewyddu a lle y rhoddir ffocws newydd iddi ar gyfer gweddill y cyfnod hyd at 2020.

Mae twristiaeth yng Nghymru yn perfformio'n gryf. Cyrhaeddodd gwariant gan ymwelwyr a oedd yn aros yng Nghymru yn 2015 ei lefelau uchaf erioed, sef £2.385 biliwn. Ategodd hyn dwf sylweddol mewn swyddi a gwerth ychwanegol i'r economi yng Nghymru.

Rydym ar y trywydd cywir i ragori ar y targed o dwf o 10% mewn termau real ar gyfer enillion gan ymwelwyr sy'n aros erbyn 2020.

Mae'r targed hwn yn heriol ond rydym yn ffyddiog y gallwn sicrhau twf parhaus yn y farchnad ddomestig a chynyddu ein cyfran o'r cynnydd a ragwelir mewn ymwelwyr rhyngwladol i'r eithaf er mwyn helpu i gynyddu dosbarthiad ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn ac ym mhob cwr o Gymru.

Byddwn yn buddsoddi yn y meysydd canlynol yn unol ag ymrwymiadau parhaus a newydd y Llywodraeth i wneud y canlynol:

- Parhau i fuddsoddi mewn cynlluniau ac atyniadau sy'n gydnaws â'n hapêl gryfaf i dwristiaid, megis y buddsoddiadau diweddar yn Surf Snowdonia a Zipworld;
- Adeiladu ar lwyddiant digyffelyb y Flwyddyn Antur drwy gyflwyno'r Flwyddyn Chwedlau yn 2017, a manteisio ar Flwyddyn y Môr yn 2018 er mwyn buddsoddi yn ein trefi glan môr;
- Datblygu a hyrwyddo llwybrau twristiaeth allweddol Cymru, gan gynnwys Coridor Diwylliant yr A55, gan hyrwyddo gwerth twristiaeth ein cestyll, ein mynyddoedd, ein harfordir, ein trefi a'n hardaloedd cefn gwlad anhygoel, a'i throi yn un o brif lwybrau diwylliannol Ewrop;
- Adeiladu ar ein profiad o gynnal digwyddiadau mawr er mwyn denu twristiaid ychwanegol i Gymru ac ysgogi mwy o wariant yn yr economi;
- Defnyddio buddsoddiad mewn twristiaeth fel cymhelliant ar gyfer datblygu twristiaeth gymdeithasol, gan alluogi pobl na allant gymryd seibiant i brofi ymweliad neu wyliau.

Mae'r sector twristiaeth mewn sefyllfa unigryw i gael effaith gadarnhaol ar bob un o nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Fodd bynnag, mae cyflawni'r uchelgeisiau hyn yn heriol ar adeg pan fo pwysau ar adnoddau'r sector cyhoeddus a phroffidioldeb busnesau. Mae angen parhau i ysgogi arloesedd a buddsoddiad ar draws y diwydiant er mwyn datblygu profiadau o'r radd flaenaf i ymwelwyr a gaiff eu hyrwyddo'n effeithiol gan Croeso Cymru a'r gymuned dwristiaeth yng Nghymru. Dim ond drwy gydweithio er budd twristiaeth o fewn Partneriaeth ar gyfer Twf y gellir cyflawni hyn.

Mae'r strategaeth hon ar ei newydd wedd yn nodi'r camau gweithredu blaenoriaethol canlynol a fydd yn atgyfnerthu ein sefyllfa gystadleuol ac yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd newydd ar gyfer twf.

**Hyrwyddo'r Brand**

- Datblygu proffil Cymru; cyflwyno'r gyfres o Flynyddoedd Marchnata â Thema gyda'r Flwyddyn Antur yn 2016, y Flwyddyn Chwedlau yn 2017 a Blwyddyn y Môr yn 2018, wedi'u hategu gan brofiadau cynnyrch a digwyddiadau newydd.
- Esblygu'r dull gweithredu o dan arweiniad cynnyrch; hyrwyddo mathau perthnasol o wyliau, cynhyrchion eiconig a brandiau a phrofiadau cyrchfan nodedig i ddiwallu anghenion y farchnad.
- Denu marchnadoedd twf uchel; parhau i flaenoriaethu'r farchnad wyliau ddomestig, gan roi dull gweithredu wedi'i dargedu'n ofalus ar waith yn ein marchnadoedd rhyngwladol blaenoriaethol, sef Iwerddon, yr Almaen a'r UD a chanolbwyntio ar gyfleoedd o dan arweiniad partneriaid a chyfleoedd tactegol mewn marchnadoedd rhyngwladol ehangach.
- Ailganolbwyntio gweithgarwch marchnata; sicrhau cydbwysedd priodol o weithgareddau marchnata rhwng pob marchnad darged ac o fewn pob marchnad darged yn seiliedig ar botensial twf y farchnad, argaeledd adnoddau a chyfleoedd i gydweithio â phartneriaid.
- Targedu marchnadoedd newydd lle ceir arenillion uchel; sicrhau adnoddau ychwanegol i dargedu'r farchnad Digwyddiadau Busnes, cefnogi Cruise Cymru a chefnogi gweithgareddau marchnata sy'n gysylltiedig â chwarae golff, gyda'r bwriad o gynyddu lefelau ymgysylltu â'r sector preifat ar ôl y Gystadleuaeth Agored i Bobl Hŷn yn 2017.
- Gweithredu ar sail digidol yn gyntaf; datblygu porth digidol integredig i Gymru, gwella www.croesocymru.com a gwefannau rhyngwladol Croeso Cymru, datblygu'r ecosystem cynnwys i Gymru a datblygu cymunedau cyfryngau cymdeithasol.
- Llywio gwariant a phroffidioldeb; bydd Croeso Cymru yn parhau i ganolbwyntio ar gynyddu'r galw a'r diddordeb cyffredinol mewn ymweld gan ddefnyddio sianelau digidol a masnach i hidlo'r diddordeb hwnnw a chreu cyfleoedd i'r diwydiant.

**Datblygu Cynhyrchion a Digwyddiadau Mawr**

- Atyniadau blaenllaw; yn enwedig y rheini sy'n darparu profiadau nodedig ac unigryw a all ddenu galw newydd ac ymweliadau yn ystod pob tywydd drwy gydol y flwyddyn.
- Llety o ansawdd; yn enwedig gwestai brand o ansawdd uchel ac uwchraddio unigolion i lety o ansawdd sy'n bodloni gofynion cyfnewidiol y farchnad.

- Busnes a Digwyddiadau; cynhyrchion i ddarparu ar gyfer marchnadoedd Busnes a Digwyddiadau gan fanteisio ar Ganolfan Gynadledda Ryngwladol arfaethedig Cymru.
- Mordeithio; datblygu seilwaith mordeithio modern yn y porthladdoedd allweddol.
- Datblygu profiadau Treftadaeth a Diwylliant; buddsoddi ym mhrofiad ymwelwyr a darparu llety ar safleoedd treftadaeth nodedig.
- Bwyd a Diod; atgyfnerthu enw cynyddol dda Cymru fel cyrchfan bwyd gan gynnwys gweithredu ar y blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd.
- Defnyddio technoleg newydd; dylai'r diwydiant fanteisio ar dechnoleg newydd i greu profiadau cyffrous a thrawsnewidiol i ymwelwyr.
- Denu digwyddiadau proffil uchel newydd a datblygu digwyddiadau sy'n bodoli eisoes; denu ymweliadau gwariant uchel o'r tu allan i Gymru.
- Cefnogi'r Blynyddoedd Thematig drwy gynnal digwyddiadau angori.
- Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd brandio mewn digwyddiadau.

**Datblygu Pobl**

- Parhau i ddylanwadu ar gynlluniau hyfforddi a phrentisiaethau er mwyn ymateb i anghenion cyfnewidiol y diwydiant a chwsmeriaid.
- Llywio defnydd busnesau o Wasanaeth Cymorth Ar-lein Porth Sgiliau Llywodraeth Cymru i Fusnesau.
- Helpu cyrchfannau i gyflawni statws Cyrchfan World Host.
- Cyflwyno Gwobr Twristiaeth Genedlaethol ar gyfer rhagoriaeth mewn gwasanaethau cwsmeriaid yn 2017/18.
- Ymchwilio i'r posibilrwydd o ddatblygu elfen gwasanaethau cwsmeriaid o fewn Bagloriaeth Cymru.
- Rhoi'r prosiect Teithiau Dysgu ar waith er mwyn datblygu arfer gorau ym mhob rhan o'r diwydiant.
- Cefnogi mentrau wedi'u hanelu at newid canfyddiadau o yrfaoedd ym maes twristiaeth.
- Cynyddu'r ddarpariaeth tywyswyr a chenhadon lleol sy'n meddu ar sgiliau iaith addas.
- Gweithio gyda'r diwydiant i ystyried cyfleoedd ar gyfer ysgol lletygarwch newydd yng Nghymru.

**Meithrin Lle a Phartneriaethau**

- Ailganolbwyntio cymorth i Bartneriaethau Cyrchfan er mwyn rhoi camau gweithredu allweddol ar waith yn unol â'u cynlluniau a'u blaenoriaethau strategol ehangach.
- Nodi cyrchfannau â chryfder yn y farchnad i'w hyrwyddo fel brandiau lleoedd cyrchfan is-genedlaethol arweiniol.
- Adolygu rôl Cymdeithasau Twristiaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt.
- Gweithredu'r buddsoddiadau seilwaith twristiaeth strategol a ariennir gan yr UE yn yr 11 o gyrchfannau penodedig ledled Cymru.
- Atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng y Ffora Cenedlaethol, y Partneriaethau Rheoli Cyrchfannau, cymdeithasau twristiaeth lleol a Chyrff Diwydiant sy'n Cynrychioli'r Sector.
- Sicrhau y caiff twristiaeth flaenoriaeth yng nghynlluniau'r cyrff Economaidd Rhanbarthol.

- Hyrwyddo'r cymorth ar-lein newydd sydd ar gael i'r diwydiant a datblygu dull gweithredu cynaliadwy a naws nodedig am le.
- Darparu gwell tystiolaeth i wneuthurwyr penderfyniadau allweddol ar lefel leol er mwyn sicrhau y caiff cyllidebau eu diogelu i adlewyrchu effeithiau'r economi ymwelwyr.
- Sicrhau y caiff anghenion twristiaeth eu hystyried mewn datblygiadau seilwaith trafnidiaeth perthnasol, gan gynnwys gwell cysylltedd drwy'r prif lwybrau mynediad awyr a môr, gwelliannau i'r M4, trydaneiddio'r rheilffyrdd a chytundebau masnachfraint.
- Gweithio gyda gweithredwyr trafnidiaeth a chludwyr i hyrwyddo llwybrau i ymwelwyr.


## 2. PERFFORMIAD A RHAGOLYGON

2.1 Targed Strategol

**Mae twristiaeth yng Nghymru yn perfformio'n gryf.**

Roedd gwariant gan ymwelwyr a oedd yn aros yng Nghymru yn 2015 dros £2.385 biliwn, yn uwch na'r lefel twf yr oedd ei hangen i gyrraedd y targed strategol o 10% mewn termau real erbyn 2020 (sy'n cyfateb i 29% mewn termau nominal, gan gynnwys chwyddiant o 2.0% y flwyddyn):

**Tabl: Perfformiad yn erbyn targedau strategol**




Bu'r cynnydd hwn mewn enillion twristiaeth yn ffactor ysgogi arweiniol o ran twf yr economi yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r sector twristiaeth wedi cefnogi twf uwch a chyflymach mewn cyflogaeth a gwerth ychwanegol crynswth

na'r economi gyffredinol yng Nghymru. Twristiaeth yw'r sector mwyaf ond dau o ran cyflogaeth uniongyrchol a gwelwyd y lefel twf uchaf ond un o ran lefelau cyflogaeth o blith holl sectorau blaenoriaeth Llywodraeth Cymru ers 2006. Bu cyfradd twf cyflymach o ran cyflogi rheolwyr a gweithwyr proffesiynol ym maes twristiaeth yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn. Twristiaeth yw'r sector mwyaf o bell ffordd o ran cyflogi a chreu swyddi i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed ac mae'n cefnogi llesiant economaidd ledled Cymru.

**Gan weithio gyda'r diwydiant, bu Croeso Cymru yn allweddol wrth helpu i lywio'r twf hwn mewn swyddi a chyfoeth.**

Yn 2015, amcangyfrifir bod y rhaglen gweithgareddau cyfun a gynhaliwyd gan Croeso Cymru a'r Uned Digwyddiadau Mawr wedi cefnogi 10,600 o swyddi, sef chwarter yr holl swyddi a gefnogwyd gan Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar y pryd ac wedi dylanwadu ar £458m o wariant gan ymwelwyr, gan ragori ar y targedau a bennwyd a pharhau â'r patrwm twf a welwyd yn ystod y 3 blynedd diwethaf.

**Mae twristiaeth yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol ymhell y tu hwnt i'w buddiannau economaidd.**

Y tu hwnt i'r buddiannau uniongyrchol a nodir uchod, mae Twristiaeth yn helpu i lywio canfyddiadau cadarnhaol o Gymru fel cyrchfan, gan chwifio'r faner o ran mewnfuddsoddi, addysg a masnach. Gall gyflwyno buddiannau iechyd ac mae'n darparu llwyfan i ddiwylliant Cymru ac yn cyfoethogi cymunedau. Mae mewn sefyllfa unigryw i gael effaith gadarnhaol ar bob un o nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Ceir cyfleoedd i gydweithio â rhanddeiliaid o fewn Llywodraeth Cymru a'r tu allan iddi er mwyn manteisio i'r eithaf ar y buddiannau hyn drwy gyd-ddealltwriaeth a chydweithredu.

Y brif her yn ystod gweddill cyfnod y strategaeth yw sicrhau twf cynaliadwy pellach, cefnogi mwy o swyddi llawn amser, cyflog uwch drwy gydol y flwyddyn a manteisio i'r eithaf ar y buddiannau economaidd a'r buddiannau llesiant ehangach i gymunedau ledled Cymru.  Bydd hyn yn gofyn am gyfres newydd o flaenoriaethau, wedi'u gweithredu drwy fuddsoddiad parhaus ac arloesedd ym maes twristiaeth, gan Croeso Cymru a chan bartneriaid yn y gymuned dwristiaeth ehangach.

**2.2** Y Farchnad Ddomestig

Bu'r farchnad ddomestig yn tyfu'n gryf yng Nghymru gyda chynnydd blynyddol mewn ymweliadau, gwariant real gan ymwelwyr a'r gyfran o'r farchnad, gyda 10.5m o ymweliadau (Atodiad 1) a gwariant o £1,975m yn 2015. Ceir perfformiad cryf ar adeg anodd i'r farchnad  gyffredinol ar gyfer mynd ar wyliau gartref ("staycations" yn Saesneg). Yr her allweddol yn ystod gweddill cyfnod y strategaeth yw cynnal twf wrth i amodau'r farchnad o bosibl ddod yn fwy heriol wrth i'r sefyllfa economaidd gadarnach, punt gryfach a theithiau awyren rhatach o bosibl annog mwy o ymwelwyr domestig i fynd ar wyliau dramor unwaith eto. Ceir heriau hirsefydledig hefyd o ran cynyddu arenillion ymwelwyr gan ymwelwyr hamdden a busnes sydd ar eu hôl hi o hyd o gymharu â rhannau eraill o'r DU, o ran annog mwy o ymwelwyr sy'n ymweld am y tro cyntaf ac o ran ehangu'r tymor sy'n parhau i ddangos uchafbwynt ystyfnig.

Noda adolygiad o'n marchnad bod ein gallu i gyflawni'r targed twf strategol yn dibynnu i raddau helaeth ar y rhagolygon ar gyfer y farchnad ddomestig. Pe byddai'r rhagolygon yn dangos lleihad yn y farchnad ddomestig gyffredinol, byddai angen i Gymru gynyddu ymweliadau o farchnadoedd rhyngwladol yn sylweddol.

**2.3** Marchnadoedd Rhyngwladol

Bu adferiad yn nifer yr ymweliadau rhyngwladol i Gymru gyda thwf parhaus mewn teithiau a gwariant yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gyrraedd 970,000 o ymweliadau a gwariant o £410m yn 2015. Fodd bynnag, mae lefelau teithiau yn is na'u huchafbwynt yn 2006 cyn y dirwasgiad economaidd o hyd ac mae cyfran Cymru o ymweliadau cyffredinol i'r DU yn parhau islaw 3%. Mae angen cynyddu arenillion gan fod gwariant ymwelwyr gan ymwelwyr rhyngwladol yn ystod eu teithiau i Gymru yn llawer is na gweddill y DU er gwaethaf hyd arhosiad tebyg. Gallai datblygu gwestai ychwanegol o ansawdd uchel helpu i gynyddu arenillion ymwelwyr. Y brif her fyrdymor i Gymru yw sicrhau ein bod yn cynyddu ein cyfran o'r twf a ragwelir mewn ymwelwyr rhyngwladol i'r DU i'r eithaf. Bydd hyn yn anodd o ystyried y pwysau cystadleuol cryf, ymwybyddiaeth is o Gymru, llai o lwybrau hedfan uniongyrchol a'r her sy'n gysylltiedig â sicrhau adnoddau at ddibenion marchnata. Bydd angen i ni dargedu ein gweithgarwch yn ofalus at farchnadoedd a all annog y gwerth uchaf yn ogystal â thwf cyflym ac y gellir eu darbwyllo'n haws i ymweld â Chymru. Marchnad teithiau byr o Ewrop a'r farchnad teithiau hir aeddfed yw'r rhagolygon gorau ar gyfer twf o hyd yn ystod y blynyddoedd nesaf, er y gall fod cyfleoedd tactegol yn gysylltiedig â llwybrau awyr newydd a gweithgarwch ehangach gan Lywodraeth Cymru. Mae marchnadoedd newydd e.e. Tsieina yn cynyddu'n gyflym ond byddant yn cynnig nifer llawer is o ymwelwyr a gwerth llawer is hyd at 2020.

**2.4** Ymweliadau Dydd gan Dwristiaid

Mae ymweliadau dydd yn gwneud cyfraniad aruthrol i'r economi ymwelwyr yng Nghymru, ac yn gyfrifol am 75 miliwn o deithiau a wariodd £2.71 biliwn yn 2015. Mae ganddynt wariant llawer is fesul taith nag ymwelwyr sy'n aros ac mae pobl sy'n byw yng Nghymru yn llawer mwy tebygol o ymgymryd ag ymweliadau o'r fath felly mae eu cyfraniad net i'r economi yn is. Yr her allweddol yw annog ymweliadau dydd mwy rheolaidd, yn enwedig ymweliadau i fwynhau amrywiaeth ehangach o atyniadau, digwyddiadau a gweithgareddau, a defnyddio'r rhain fel ffordd o ysgogi ymweliadau â ffrindiau a pherthnasau sy'n byw yng Nghymru.

**2.5** Ffactorau sy'n Sbarduno Newid

Mae'r farchnad twristiaeth fyd-eang yn gynyddol gystadleuol wedi'i llywio gan amrywiaeth o ffactorau sbardun economaidd, cymdeithasol, gwleidyddol, technolegol a diwydiannol sy'n newid yn gyflym. Mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn addasu'n llwyddiannus ond bydd angen iddo barhau i ymateb yn gyflym ac yn hyblyg i amodau cyfnewidiol y farchnad.

- Mae'r sefyllfa economaidd yn parhau'n ansicr ac yn fregus. Gall incwm gwario cynyddol yn y DU annog unigolion i newid o wyliau domestig i wyliau tramor unwaith eto. Mae atgyfnerthu economïau yn ein marchnadoedd rhyngwladol allweddol a gwelliannau o ran cysylltedd aer yn cynnig cyfleoedd i gynyddu

ymweliadau rhyngwladol. Bydd llawer yn dibynnu ar gyfraddau cyfnewid cymharol a chostau cymharol a gallu Cymru i gystadlu yn erbyn cyrchfannau eraill.

- Gall y pryderon diogelwch cynyddol effeithio ar ymweliadau o farchnadoedd teithio sensitif fel yr UD ond gall hefyd annog unigolion i fynd ar wyliau yn agosach at eu cartref.
- Gall newidiadau demograffig a chymdeithasol greu cyfleoedd i dargedu'r farchnad teuluoedd gynyddol, ymwelwyr hŷn, teithio aml-genhedlaeth, pobl sengl a gwyliau gydag anifeiliaid anwes.
- Mae Cymru mewn sefyllfa dda i fanteisio ar gryfderau cystadleuol sy'n bodoli eisoes er mwyn denu'r nifer cynyddol o ymwelwyr sy'n chwilio am brofiadau sy'n rhoi cyfleoedd iddynt ailgysylltu â natur, dysgu ar wyliau, llesiant, teithio anturus, treftadaeth a hiraeth, bwyd a diod lleol, ymweld â lleoliadau ffilmiau a gwyliau a digwyddiadau.
- Mae defnyddwyr sy'n chwilio am fargeinion ar ôl y dirwasgiad ynghyd â'r cyfraddau comisiwn uchel a godir gan gwmnïau marchnata canolradd yn rhoi pwysau ar refeniw busnes.
- Gall cyflogau uwch, cyfraddau TAW uchel a chodiadau posibl mewn cyfraddau llog effeithio ar yr arian sydd ar gael i fuddsoddi mewn busnesau, creu swyddi a marchnata.
- Mae'r pwysau ar gyllidebau'r sector cyhoeddus ar lefel Awdurdodau Lleol yn lleihau gwariant anstatudol ar wasanaethau twristiaeth a hamdden, y celfyddydau a digwyddiadau, seilwaith ymwelwyr a gwybodaeth i dwristiaid, gyda'r toriadau hyn o bosibl yn cael effaith negyddol ar brofiad ymwelwyr ac ymdrechion ar y cyd i hyrwyddo twristiaeth.
- Mae angen parhau i ysgogi arloesedd, buddsoddiad a pherfformiad ar draws y sector er mwyn sicrhau twf sy'n parhau'n heriol ar adeg lle bo galw bregus yn y farchnad yn rhannu marchnadoedd ac yn cynyddu cystadleuaeth gan gyrchfannau newydd a chyrchfannau sefydledig eraill.
- Mae'n bwysig i Croeso Cymru a'r diwydiant ystyried buddsoddiadau o safbwynt tymor hwy ac o safbwynt strategol, gan gynnwys effeithiau anuniongyrchol yn ogystal ag effeithiau uniongyrchol. Mae'r ffaith bod y farchnad yn arallgyfeirio yn cynnig cyfleoedd i gyrchfannau a darparwyr yng Nghymru gydweithio er mwyn creu mantais profiad drwy gynnig dewis o brofiadau unigryw, gwreiddiol sy'n cynnig gwerth ychwanegol i ymwelwyr.

## 3. HYRWYDDO'R BRAND

### **3.1** Nodau strategol

Mae *Partneriaeth ar gyfer Twf* yn nodi'r blaenoriaethau allweddol canlynol o dan 'Hyrwyddo'r Brand':

- Hyrwyddo a marchnata brand cryf, unffurf ac unigryw i Gymru;
- Hyrwyddo ar sail cynnyrch sy’n cyfleu rhesymau cymhellol dros ymweld â Chymru;
- Targedu’r marchnadoedd hen a newydd sydd fwyaf tebygol o dyfu;
- Gwerthu rhagoriaeth trwy’r hyn y gall Cymru ei gynnig – arfordir a chefn gwlad, diwylliant, gweithgareddau, digwyddiadau a chyrchfannau unigryw.

I ddechrau, nodwyd y canlyniadau llwyddiannus canlynol mewn perthynas â'r nodau hyn:

- Gwell ymwybyddiaeth o Gymru fel cyrchfan i ymwelwyr - adnabyddiaeth brand uchel;
- Gwell canfyddiad o Gymru fel lle i ymweld ag ef;
- Unigolion yn dewis ymweld â Chymru o gymharu â chyrchfannau cystadleuol eraill.

**3.2** Cynnydd hyd yma

Bu gwelliant sylweddol o ran perfformiad marchnata Croeso Cymru yn ystod y tair blynedd diwethaf. Dylanwadodd gwaith marchnata Croeso Cymru â defnyddwyr ar dros £306m o wariant ychwanegol yn economi Cymru yn 2015, o gymharu â £240m yn 2014 a £180m yn 2013. Mae gweithgarwch busnes-i-fusnes Croeso Cymru, sydd wedi'i anelu at y fasnach deithio wedi dylanwadu ar £5.2m o wariant ychwanegol - sef cynnydd o 30% ers 2013.

Llywiwyd y canlyniadau hyn gan y canlynol:

- Rhaglen barhaus o ymgyrchoedd proffil uchel, aml-sianel clodwiw gyda ffocws clir ar gynnyrch: *Have you packed for Wales?* yn 2014 a 2015, a'r ymgyrch Blwyddyn Antur yn 2016.
- Dull gweithredu digidol - mae niferoedd yr ymwelwyr unigol i wefan croesocymru.com wedi dyblu i 4.3m ers lansio'r wefan yn 2013. Rydym hefyd wedi lansio gwefannau Cymraeg ac Almaeneg cynhwysfawr â chynnwys eang yn ystod y 18 mis diwethaf. Mae gennym 820,000 o ddilynwyr ar gyfryngau cymdeithasol - mae ein dilynwyr ar Twitter wedi cynyddu 50% ers mis Rhagfyr y llynedd.
- Rhaglen ragweithiol ar gyfer ymgysylltu â'r cyfryngau, sy'n creu o leiaf £40m o ran gwerth hysbysebu cyfatebol i Gymru bob blwyddyn.
- Ffocws newydd ar farchnata rhyngwladol, gan gynnwys y canlynol: ymgyrchoedd teledu/print/cysylltiadau cyhoeddus yn Iwerddon; ymgyrchoedd aml-sianel yn yr Almaen, wedi'u hategu gan bartneriaethau â brandiau megis Dertour, P&O Ferries a DFDS; cadw tîm yn Efrog Newydd i annog masnach deithio/busnes gan weithredwyr gwyliau i Gymru o'r farchnad hon.
- Rhaglen masnach deithio wedi'i hadfywio a oedd y llynedd yn cynnwys presenoldeb drwy raglen ddigyffelyb o 26 o ddigwyddiadau yn y DU ac yn rhyngwladol - gan gynnwys ITB Berlin a Marchnad Deithio'r Byd - a gyflawnwyd mewn partneriaeth â 77 o bartneriaid yng Nghymru.
- Rhaglen marchnata golff wedi'i thargedu, sydd wedi cyfrannu at gynnydd o 57% mewn ymwelwyr golff i Gymru ers 2004.
- Cefnogaeth i Cruise Cymru, gan gynnwys gwaith marchnata uniongyrchol i'r llwybrau mordeithio yn y DU, Ewrop ac UDA er mwyn codi proffil cynnyrch mordeithio Cymru ar sail fyd-eang a chynyddu gwerth y farchnad fordeithio. Bu cynnydd o 96% yn nifer y llongau mordeithio a ymwelodd â Chymru yn 2015 ac amcangyfrifir y bydd 22,500 o deithwyr a 7,500 o aelodau o griwiau yn ymweld yn 2016.
- Trefniadau cydweithio agos ag Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru er mwyn manteisio'n llawn ar ddigwyddiadau megis Uwchgynhadledd NATO Cymru a Chwpan Rygbi'r Byd, yn ogystal â digwyddiadau sy'n llai ond sy'n diffinio brand

megis Gŵyl Rhif 6. Rydym wedi ymgymryd â gweithgareddau i gefnogi Cymru yn Rownd Derfynol Pencampwriaeth yr Ewro, ac yn bwriadu ymgymryd â gweithgareddau yn ystod y cyfnod cyn Rownd Derfynol Cynghrair y Pencampwyr sy'n dod i Gaerdydd yn 2017.

- Datblygu cysylltiadau strategol ag ymgyrch GREAT a thimau VisitBritain - ymhlith yr uchafbwyntiau diweddar mae Sioe Deithiol Antur Cymru/GREAT i bedair dinas yn Ewrop yn 2016.

Er gwaethaf y ffaith bod ymgyrchoedd yn dylanwadu ar niferoedd cynyddol o ymweliadau byrdymor, mae newid canfyddiadau ehangach a lefelau ymwybyddiaeth yn her o hyd. Bu lefelau ymwybyddiaeth o ymgyrchoedd yn lleihau wrth i dirlun y cyfryngau ddod yn gynyddol dameidiog. Ceir tystiolaeth hefyd o wendid cystadleuol hirsefydledig sy'n effeithio ar frand Cymru: mae lefel ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig yn llawer is o hyd ymhlith y marchnadoedd rhyngwladol targed lle rydym yn wynebu cystadleuaeth gryf gan gyrchfannau mwy adnabyddus yn Iwerddon, Llundain, yr Alban a'r prif gyrchfannau sy'n denu twristiaid yn Lloegr.

O ystyried yr heriau hyn, rydym wedi cymryd nifer o gamau i ymdrin â'r mater hirdymor hwn. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gwneud y canlynol:

- Parhau i fuddsoddi mewn ymgyrchoedd creadigol proffil uchel o ansawdd uchel, tra'n croesawu cyfleoedd digidol hefyd.
- Lansio dull gweithredu thematig newydd mewn perthynas â hyrwyddo Cymru, gyda'r nod o greu brand twristiaeth llawer mwy diffiniedig ac unigryw i Gymru, gan ganolbwyntio ar ein cryfderau craidd fel gwlad (gweithgareddau awyr agored - Antur 2016; diwylliant a threftadaeth - Chwedlau 2017; tirweddau eithriadol - Y Môr 2018). Lluniwyd y dull gweithredu hwn mewn ymateb i waith ymchwil sy'n dangos ein bod ar ei hôl hi o gymharu â'n cystadleuwyr, hyd yn oed pan fo gennym fantais gystadleuol wirioneddol: *“The positioning of Wales shows that although it has some relative strength it does not dominate any holiday type. For example, Wales scores third in the beach holiday category, after the South East and the South West. This analysis highlights a key problem for Wales in that  it is not distinctive enough in terms of clearly standing for a particular type of holiday.”* (Adroddiad *Understanding Barriers to Visiting Wales* a baratowyd gan TNS ar gyfer Llywodraeth Cymru yn 2013). Ymddengys fod y dull gweithredu thematig yn gwneud gwahaniaeth, gan gyflawni lefelau uchel o gefnogaeth a diddordeb.
- Adnewyddu strategaeth brand Cymru a'i nodi mewn pryd ar gyfer y Flwyddyn Antur. Hyd yn hyn, cafodd y brand newydd groeso cynnes a'r nod yw ei gyflwyno'n llawn ar draws yr holl weithgareddau twristiaeth yn 2016, gan weithio hefyd ar draws Llywodraeth Cymru a chyda phartneriaid allanol allweddol er mwyn datblygu dull gweithredu cyrchfan integredig 'Cymru'n Un'.
- Ailstrwythuro adran Marchnata Croeso Cymru, gan uno'r tîm ag uned Marchnata Busnes Cymru i ddod yn rhan o adran unigol integredig.

Yr her yw cynnal momentwm, a sicrhau mwy o ffocws a gwell trefniadau integreiddio wrth hyrwyddo brand gwlad unigryw a chadarn i Gymru. Wrth wneud hyn, mae angen i ni hefyd weithio gyda phartneriaid i nodi, datblygu a hyrwyddo brandiau cyrchfan a chynnyrch penodol cryfach ledled y wlad.

Fodd bynnag, yr her allweddol o ran brandio yw parhau i ddatblygu profiadau cynnyrch newydd a gwell - sy'n parhau i adfywio canfyddiadau o Gymru.

**3.3** Blaenoriaethau hyd at 2020

Mae Croeso Cymru wedi cymryd llawer o gamau i ddatblygu'r brand a'r dull o gyflwyno ymgyrchoedd yn ystod y tair blynedd diwethaf: rydym yn ysgogi lefel uwch o wariant yn yr economi flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac wedi gosod y sylfeini ar gyfer ffordd newydd o weithio. Gan edrych ymlaen i 2020, mae'n hanfodol ystyried dau bwynt allweddol:

- Strategaeth i Gymru yw hon, nid dim ond strategaeth i Croeso Cymru, ac fel y cyfryw, nod y diweddariad hwn ar gynnydd oedd nid yn unig egluro rôl Croeso Cymru ei hun, ond hefyd cydnabod y rôl gynyddol bwysig sydd gennym i'w chwarae wrth ddarparu arweinyddiaeth glir, llawn gobaith i ddiwydiant hyderus a phartneriaid allanol, hyd yn oed - ac yn enwedig - wrth i adnoddau'r sector cyhoeddus dynhau. Mae ein llwyddiant yn y dyfodol yn dibynnu ar ysbrydoli arloesedd parhaus yn y farchnad, y tu hwnt i gylch gwaith uniongyrchol Croeso Cymru. Rhaid i ni wneud hyn gan barhau'n ymwybodol o'n galluoedd a'n hadnoddau a'n cyfyngiadau.

- Mae hefyd yn hanfodol cofio nad 'maes' gweithgarwch annibynnol yw brand a gweledigaeth marchnata Cymru, i'w hystyried fel pennod o'r strategaeth. Mae marchnata a datblygu yn feysydd cwbl rhyngddibynnol, rhaid i gynhyrchion newydd ddiffinio'r brand a rhaid eu targedu at y farchnad, ac mae'n hanfodol datblygu dull gweithredu cwbl integredig.

Bydd y pedair blynedd nesaf yn galw am ymdeimlad diamwys o realaeth a gallu; ffocws cadarn; ac arweinyddiaeth glir wedi'i hategu gan sgiliau a thalent o'r radd flaenaf. Mae mwy o angen byth am drefniadau gweithio cydgysylltiedig - gyda chydweithwyr yn y diwydiant ac ar draws pob agwedd ar farchnata Cymru. Wrth i'r sector cyhoeddus leihau, bydd angen i ni ddangos cyfeiriad brand uchelgeisiol a chreu cynghreiriau i hyrwyddo Cymru mewn ffyrdd newydd a chreadigol.

Yn seiliedig ar y cyd-destun strategol a amlinellir, nodir pedwar maes blaenoriaeth er mwyn darparu ffocws yn ystod y cyfnod hyd at 2020:

**3.4.1** Datblygu proffil Cymru

Roedd y Flwyddyn Antur yn ddechrau ar ddull newydd o hyrwyddo Cymru fel gwlad hyderus, greadigol gydag ymdeimlad dwfn o ddilysrwydd a lle.

Erbyn 2020, ein nod yw dysgu o'r gwaith a wnaed hyd yn hyn er mwyn datblygu brand cadarn a gwydn i Gymru fel lleoliad, gan hybu ymwybyddiaeth o gyrchfannau a lefelau ymgysylltu drwy'r canlynol:

- Arweinyddiaeth brand gadarn a strategol - gan lywio gwelliannau o ran marchnata, polisi a chynhyrchion.
- Canolbwyntio gweithgarwch datblygu a hyrwyddo twristiaeth ar y canlynol:

    - 'mathau o wyliau' neu themâu cystadleuol i Gymru, gan ddechrau gydag Antur
    - cynhyrchion ac atyniadau eiconig i Gymru, gan gynnwys gwneud mwy i wella llwybrau gyrru/trafnidiaeth allweddol i mewn i Gymru ac o fewn Cymru
    - cyrchfannau allweddol - bydd hyn yn cynnwys adolygu'r 'is-strwythur' marchnata cyrchfannau yng Nghymru, er mwyn atgyfnerthu'r dull gweithredu
    - profiadau unigryw drwy raglen 'Naws am Le' wedi'i hadfywio.

- Cyflwyno dull gweithredu brand 'Cymru'n Un' cwbl integredig, wedi'i ategu gan drefniadau cyflwyno digidol a chyfleoedd rhyngwladol.
- Cyflwyno ymgyrchoedd brand proffil uchel, clodwiw ac effeithiol i Gymru.
- Gweithio gyda nifer fach o bartneriaid brand effaith uchel i Gymru.

**3.4.2** Denu marchnadoedd twf uchel

Mae cyflawni'r targed twf o 10% i Gymru yn dibynnu ar gynnal ein cyfran o'r farchnad wyliau ddomestig, a hybu gwariant y farchnad honno yn yr economi yng Nghymru. Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn y farchnad hon, gan weithredu mewn ffordd ddeallus wedi'i thargedu mewn mannau eraill er mwyn gorgyffwrdd mewn ffordd ystyrlon.

Ceir cyfleoedd hefyd i gadw golwg ar y sefyllfa er mwyn sicrhau'r cydbwysedd priodol rhwng gweithgaredd defnyddwyr/masnach ym mhob rhan o'r tîm ac o fewn pob marchnad. Ceir Matrics o'r Marchnadoedd yn Atodiad 2. Mae'n nodi cwmpas arfaethedig gweithgareddau marchnata yn ôl marchnadoedd daearyddol a marchnadoedd cynnyrch allweddol.

**3.4.3** Defnyddio dulliau digidol yn gyntaf

Mae gwella ein galluoedd digidol, a manteisio ar gyfleoedd digidol i lunio, creu a dosbarthu gwell cynnwys am Gymru yn uniongyrchol i'n marchnadoedd yn ogystal â chynnig gwell gwasanaethau cwsmeriaid arloesol yn faes lle y gallwn o bosibl weithredu mewn modd hynod gystadleuol.

Mae Cymru yn wlad fach, greadigol a cheir mwy o gyfleoedd i ni gydweithio ar draws y diwydiant i ddosbarthu cynnwys a straeon - o'n cymunedau i'r byd. Cafodd ffilm fach a gostiodd lai na £5,000 i'w chynhyrchu'n gyflym gan Croeso Cymru adeg lansio Surf Snowdonia ei gwylio dros 3.5m o weithiau yn yr UD ar dudalen unigol ar Facebook. Dyma un maes lle y gallwn achub y blaen ar gyrchfannau eraill - a gwneud mwy gyda llai o adnoddau - drwy fod yn hyblyg, yn wreiddiol ac yn greadigol.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, ailstrwythurwyd tîm marchnata Croeso Cymru er mwyn cefnogi strategaeth ddigidol wedi'i harwain gan gynnwys, ac mae'r dull gweithredu hwn eisoes yn ysgogi gwell canlyniadau gan ein hymgyrchoedd. Y weledigaeth hyd at 2020 yw cyflwyno diwylliant 'digidol yn gyntaf' nid yn unig fel un o elfennau creiddiol Croeso Cymru, ond hefyd fel un o elfennau creiddiol gweithgarwch marchnata cyrchfannau Cymru gyfan a'r diwydiant twristiaeth ehangach.

Bydd y rhaglen ar gyfer rhoi'r dull gweithredu hwn ar waith yn cynnwys y canlynol:

- Datblygu 'porth digidol' integredig i Gymru - gan gynnwys adnewyddu croesocymru.com yn llwyr, fel un o bortffolio o wefannau marchnata eithriadol i Gymru, wedi'i ategu gan well prosesau ar gyfer creu a churadu cynnwys.
- Cyflwyno dull gweithredu traws-gyfrwng i gyfathrebu, gan gyflwyno drwy ganolfan cynnwys i Gymru fel cyrchfan - gan gynhyrchu ffilm, ffotograffiaeth a chynnwys ysgrifenedig o ansawdd uchel sy'n ysbrydoli defnyddwyr i ystyried Cymru ac ymgysylltu â Chymru.
- Datblygu ecosystem cynnwys i Gymru, gan alluogi i straeon o bob cwr o Gymru gael eu coladu, eu hailbecynnu a'u cyhoeddi ar draws amrywiaeth eang o allfeydd yn gyflym.
- Parhau i gynyddu ein cymunedau ar y cyfryngau cymdeithasol, a chynnig cyfleoedd i gyrchfannau yng Nghymru gysylltu'n uniongyrchol â'n defnyddwyr ledled y byd.
- Datblygu agwedd 'beta Cymru' - gan sicrhau bod Cymru yn lleoliad arbrofol ar gyfer arloesedd digidol, gan ein bod wrthi ar hyn o bryd yn cynnal cynllun peilot ar gyfer prosiect mapio Google Snowdrop.

**3.4.4** Cynyddu gwariant a phroffidioldeb.

Ein hamcan strategol allweddol yw sicrhau gwell arenillion o dwristiaeth yng Nghymru, gan hybu twf yr economi; ond fel corff twristiaeth cenedlaethol, mae ein hymdrechion yn canolbwyntio ar ochr 'ymwybyddiaeth' y broses farchnata, a chynyddu'r diddordeb yn y gyrchfan.
Bydd cynyddu gwariant, nid dim ond nifer yr ymwelwyr, yn dod yn un o amcanion canolog holl weithgarwch marchnata brand Croeso Cymru hyd at 2020. Byddwn hefyd yn ceisio ysbrydoli partneriaid i ymgymryd â chyfleoedd newydd i ddod yn fwy cystadleuol a masnachol.

Bydd Croeso Cymru yn:

- Parhau i ganolbwyntio ein hadnoddau ar gynyddu'r galw cyffredinol am gyrchfannau - ond yn gwneud mwy i ddadansoddi'r diddordeb hwn a'i ddosbarthu'n gyflym i'r diwydiant ymateb iddo.
- Ystyried cyfleoedd i ddatblygu'r farchnad digwyddiadau busnes ymhellach. Bydd hyn yn ystyried y ddarpariaeth digwyddiadau busnes bresennol yn ogystal â datblygiadau newydd, gan gynnwys Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru.
- Gwneud mwy i ysgogi gwerthiannau drwy ddull gweithredu mwy darbodus mewn perthynas â'r fasnach deithio sy'n canolbwyntio ar farchnadoedd lle ceir arenillion uchel; yn nodi partneriaid cynnyrch twf uchel yng Nghymru ac yn gweithio gyda hwy; yn rhoi cymorth gweithredol i weithredwyr gwyliau 'werthu' Cymru yn fwy effeithiol i farchnadoedd newydd; ac sy'n ardderchog yn ddigidol. Byddwn hefyd yn anelu at wneud mwy i hyrwyddo gwyliau a gweithredwyr gwyliau yng Nghymru drwy lwyfannau defnyddwyr.
- Gwella gwybodaeth am gynnyrch a chynnwys ar wefan croesocymru.com a gwneud mwy i ryddhau data a chynnwys cysylltiedig i ddarparwyr trydydd parti eraill - gan roi gwell llwyfan a mwy o weledd i fusnesau yng Nghymru.

Ein rôl allweddol fydd helpu'r diwydiant i gynyddu refeniw. Byddwn yn anelu at wneud y canlynol:

- Ysbrydoli arloesedd o ran cynnyrch, wedi'i anelu at annog gwyliau aros hirach, gwerth uchel drwy wneud mwy i rannu arfer gorau, a deall y farchnad a thueddiadau.
- Annog busnesau yng Nghymru i barhau i wella eu gwelededd digidol a'r cynnwys a gynigir ganddynt, gan weithio gyda darparwyr byd-eang ac asiantiaid archebu fel y bo'n briodol.
- Ystyried dulliau digidol, arloesol o wella'r ddarpariaeth gwybodaeth mewn cyrchfannau.
- Annog mwy o weithgareddau traws-hyrwyddo rhwng darparwyr drwy ddull gweithredu'r blynyddoedd thematig a rhyddhau cynnwys a data i drydydd partïon eu defnyddio yng Nghymru.
- Annog busnesau unigol i fuddsoddi mwy yn yr economi leol - ac annog eu gwesteion i wneud hynny - drwy raglen Naws am Le wedi'i hadnewyddu a phwyslais o'r newydd ar ddathlu bwyd, diod, crefftau a deunyddiau lleol.

## 4. DATBLYGU CYNNYRCH

### **4.1** Nodau strategol

Mae *Partneriaeth ar gyfer Twf* yn nodi blaenoriaeth i gefnogi ymdrechion i uwchraddio a datblygu cynhyrchion twristiaeth newydd i ddiwallu anghenion cyfnewidiol ymwelwyr ac atgyfnerthu sefyllfa gystadleuol Cymru. Mae'n cynnig buddsoddiad penodol yn seiliedig ar feysydd allweddol lle ceir mantais gystadleuol ac yn cynnig y dylid ategu buddsoddiad mewn cynhyrchion arloesol gyda photensial cadarn ar gyfer twf a all weithredu fel ffactorau denu yn eu rhinwedd eu hunain ac a all weithredu fel catalydd ar gyfer newid enw da a darparu profiad unigryw i ymwelwyr.

Mae'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu cynhyrchion a nodir yn y strategaeth fel a ganlyn:

- Gwestai moethus ym mhen uchaf y farchnad a all greu galw newydd.
- Llety o ansawdd mwy o faint ar gyfer grwpiau a phartïon ar wyliau.
- Mwy o atyniadau blaenllaw sy'n addas ar gyfer bob tywydd sy'n adlewyrchu diwylliant unigryw Cymru.
- Profiad gwell i unigolion sy'n ymweld â lleoliadau treftadaeth a diwylliannol.
- Cyfleoedd i ymwelwyr ddefnyddio adeiladau hanesyddol ac adeiladau cymeriad.
- Manteisio ar yr amgylchedd eithriadol ar gyfer gweithgareddau awyr agored.
- Manteisio ar gynnyrch bwyd a diod er mwyn hyrwyddo cyrchfannau bwyd o'r radd flaenaf a chynnig profiadau o ansawdd sy'n gysylltiedig â bwyd a bwyta ym mhob rhan o'r diwydiant.
- Calendr drwy gydol y flwyddyn o wyliau a digwyddiadau bywiog.
- Defnydd blaenllaw o dechnolegau newydd a hygyrchedd band eang digidol ym mhob cyrchfan.
- Datblygu cyfleuster cynadledda a digwyddiadau rhyngwladol.

- Cysylltedd cryfach yn enwedig gyda marchnadoedd rhyngwladol yn yr awyr, dros y môr ac ar y rheilffyrdd.
- Diwallu anghenion yr henoed, y rheini ag anghenion gofal iechyd a mwy o gyfleusterau llesiant.

**4.2** Cynnydd Hyd Yma

Mae'r diwydiant wedi gwneud cynnydd cadarn wrth fuddsoddi mewn cynhyrchion arloesol o ansawdd uchel a'u datblygu er gwaethaf cyfnod economaidd anodd ac ansicr. Mae'r rhain wedi helpu i sicrhau twf busnesau a thwf y diwydiant ac wedi creu momentwm fel sail i broffil brand cryfach i Gymru wedi'i ategu gan resymau cymhellol dros ymweld gan amrywiaeth eang o farchnadoedd targed.
Er mwyn ategu hyn, mae Croeso Cymru wedi trefnu ac wedi defnyddio amrywiaeth o gynlluniau ariannu er mwyn helpu i ariannu buddsoddiadau strategol yn unol â'r blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer datblygu cynnyrch.

**Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth**

Ers 2013, mae'r Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth (TISS) wedi darparu £5.1m yn erbyn 84 o brosiectau, gan arwain at £17.3m pellach o fuddsoddiad gan y diwydiant. Mae hyn wedi helpu i greu a diogelu 685 o swyddi.

Mae enghreifftiau o'r prosiectau a gefnogwyd gan ddefnyddio arian TISS yn cynnwys y canlynol:

- Atyniadau arloesol newydd sy'n apelio at amrywiaeth o farchnadoedd targed, gan gynnwys y llinell zip cyntaf i 4 person yn Ewrop yn Zip World ym Mlaenau Ffestiniog, atyniad nodedig newydd yn cynnwys tair sleid ddŵr ym Mharc Gelli Gyffwrdd ger Bangor ac atyniad dan do newydd, Fferm Chwilod Dr Beynon yn Nhyddewi.
- Agor Gwesty Celf 4* yn Nhŵr y Felin yn Nhyddewi.
- Addasu adeilad Plasty Nanteos, Aberystwyth i greu bwyty 5 seren gydag ystafelloedd.
- Uwchraddio Gwesty Kinmel, Abergele, i westy 4 Seren â sba.
- Adfer adeilad rhestredig i greu byncdy modern 5 Seren i ddenu pen uchaf y farchnad gweithgareddau ar lannau Afon Gwy.
- Datblygu 'cyrchfannau' bwyd o ansawdd uchel gan gynnwys bwyty Coast yn Saundersfoot, bwyty Bryn ym Mhorth Eirias a Dylan's yng Nghricieth gyda'r disgwyl y bydd bwytai ychwanegol yn agor yn 2016.

Daeth adolygiad o gynllun TISS fel rhan o'r diweddariad ar gynnydd i'r casgliad bod buddsoddiadau wedi arwain at allbynnau cadarn ac wedi darparu gwerth da am arian y cyhoedd, argymhellodd y dylai'r cynllun yn y dyfodol weithredu fel cynllun benthyciadau a grantiau cymysg y gellid eu had-dalu wedi'i dargedu at flaenoriaethau buddsoddi strategol. Drwy symud y sector i gynllun mwy masnachol y gellir ei ad-dalu, gellir ailgylchu arian i gynllun TISS dros amser, gan gynnig ateb cynaliadwy i gyllid cyfalaf ar adeg pan fo cyllidebau'r sector cyhoeddus yn lleihau.

Yn ogystal, bu Croeso Cymru yn llwyddiannus wrth sicrhau arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynhyrchion a fydd yn gwella ein henw da yn sylweddol gan gynnwys 'Wavegarden' cyntaf y byd yn Surf Snowdonia, a chanolfan

ryngweithiol dan do newydd i ymwelwyr yn Y Bathdy Brenhinol yn Llantrisant a agorodd ym mis Mai 2016.

**Cyllid yr UE**

Mae Croeso Cymru wedi llwyddo i sicrhau a rheoli cyllid gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Cyflwynodd ein rhaglen Amgylchedd ar gyfer Twf wyth 'Canolfan Ragoriaeth' twristiaeth ledled Cymru, gan gynnwys parc beicio mynydd llawn cyntaf y DU ym Mharc Beicio Cymru ym Merthyr Tudful, atyniadau newydd i deuluoedd yn Aberdaron, canolfan digwyddiadau traeth newydd ym Mae Abertawe a saith prosiect gardd gan gynnwys Gerddi Aberglasne.

Ariannodd y rhaglen Amgylchedd ar gyfer Twf y gwaith o farchnata'r cynhyrchion hyn fel rhan o ymgyrch 'Have you Packed for Wales' Croeso Cymru gan roi dull marchnata newydd wedi'i arwain gan y cynnyrch ar waith a darparu model newydd ar gyfer y dull gweithredu integredig hwn yn y dyfodol.

**4.3** Blaenoriaethau Datblygu Cynnyrch hyd at 2020

Mae'r blaenoriaethau gwreiddiol o ran datblygu cynnyrch yn parhau'n berthnasol o hyd ac mae'n bwysig cyflwyno buddsoddiad pellach er mwyn uwchraddio a datblygu cynhyrchion newydd er mwyn datblygu ar y momentwm sy'n gysylltiedig â'r cynnydd da a wnaed eisoes. Bydd Croeso Cymru yn parhau i sicrhau y gellir manteisio ar yr amrywiaeth o ffynonellau cyllid posibl sydd ar gael ar gyfer twristiaeth a'u bod yn gyson â'r blaenoriaethau strategol ac anghenion cyfnewidiol marchnadoedd a busnesau. Bydd hyn yn cynnwys rheoli arian TISS i gynllun benthyciadau a grantiau cymysg. Rhoddir mwy o bwyslais ar helpu llai o fuddsoddiadau mwy, effaith uwch a all weithredu fel catalydd ar gyfer buddsoddiadau ehangach a gwella ansawdd.

Gan symud ymlaen, byddwn yn ceisio buddsoddi mewn mwy o brosiectau strategol, gan gynnwys:

- **Atyniadau blaenllaw**: gweithio gyda'r sector preifat er mwyn sicrhau bod cyfres gadarn o atyniadau a chynhyrchion gweithgaredd newydd o ansawdd uchel, yn enwedig y rheini sy'n darparu profiadau nodedig ac unigryw a all ddenu galw newydd ac ymweliadau bob tywydd drwy gydol y flwyddyn.
- **Llety o ansawdd:** Datblygu darpariaeth mewnfuddsoddi gydlynus gadarn gyda ffocws penodol ar westai brand o ansawdd uchel (4 a 5 seren), tra'n parhau i gefnogi cynigion i uwchraddio i lety o ansawdd gan ddiwallu gofynion cyfnewidiol y farchnad.
- **Busnes a Digwyddiadau**: Buddsoddi mewn cynhyrchion i ddarparu ar gyfer marchnadoedd Busnes a Digwyddiadau gan gynnwys datblygu Canolfan Gynadledda Ryngwladol arfaethedig Cymru yng ngwesty'r Celtic Manor.
- **Mordeithio:** Datblygu seilwaith mordeithio modern mewn porthladdoedd allweddol er mwyn parhau i dyfu'r farchnad.
- **Datblygu profiadau Treftadaeth a Diwylliannol:** Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Cadw er mwyn cefnogi buddsoddiad ym mhrofiad ymwelwyr a darpariaeth llety mewn atyniadau treftadaeth a diwylliannol nodedig gan gynnwys y gwaith ailddatblygu gwerth miliynau o bunnoedd yn Amgueddfa Hanes Naturiol Sain Ffagan.

- **Bwyd a Diod:** Parhau i atgyfnerthu enw cynyddol dda Cymru fel cyrchfan bwyd gan gynnwys gweithredu ar y blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd.
- **Sicrhau bod busnesau yn defnyddio technolegau newydd:** Gweithio gyda'r diwydiant i fanteisio ar dechnoleg newydd i greu profiadau cyffrous a thrawsnewidiol i ymwelwyr a gwella gallu'r diwydiant i gystadlu.

**4.4** Sicrhau Ansawdd

Prif egwyddorion y cynlluniau Sicrhau Ansawdd yw rhoi tawelwch meddwl i ddefnyddwyr o ran lefel y gwasanaethau a'r cyfleusterau y gallant ddisgwyl eu cael ac ysgogi gwelliannau o fewn busnesau er mwyn gwella safonau ansawdd a phrofiad ymwelwyr yng Nghymru.

Mae tîm Sicrhau Ansawdd Croeso Cymru yn ymgysylltu â thros 5,500 o fusnesau a'r tîm hwn sy'n darparu'r cyswllt wyneb yn wyneb rhwng busnesau a Croeso Cymru. Yn ogystal â chynnal yr asesiad ansawdd annibynnol, mae'r Aseswyr Ansawdd yn gweithredu fel Rheolwyr Cysylltiadau Twristiaeth, gan gyfeirio busnesau at amrywiaeth o wasanaethau/arbenigwyr e.e. Busnes Cymru, cynlluniau ariannu a gwaith ymchwil cyhoeddedig. Mae'r cysylltiadau hyn yn bwysig er mwyn gweithio mewn partneriaeth â'r diwydiant, annog ac ysgogi gwelliannau o ran twf ac ansawdd.

Er bod y ffigurau diweddaraf yn dangos mai ychydig llai na 50% o fusnesau llety yng Nghymru sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau Sicrhau Ansawdd, ar y cyfan, mae'r rheini sy'n cymryd rhan yn profi cyfraddau deiliadaeth uwch na busnesau nad ydynt yn rhan o gynlluniau graddio; ac mae tri chwarter y busnesau sy'n rhan o gynlluniau graddio wedi cyflawni gradd 4 neu 5 seren gan adlewyrchu safon uchel y llety sydd ar gael yng Nghymru.

Cydnabyddir busnesau Gwestai a Llety o ansawdd uchel drwy ddyfarnu Gwobr Aur flynyddol. Yn 2015, cyflwynwyd Gwobrau ar gyfer Atyniadau i Ymwelwyr er mwyn cydnabod atyniadau sy'n gwneud mwy na'r disgwyl i sicrhau bod pobl yn mwynhau eu hymweliad. Cyflwynwyd pedair gwobr - Aur, Trysor Cudd, Adrodd Stori Orau a Chaffi o'r Ansawdd Gorau a chyhoeddwyd y gyfres gyntaf o enillwyr ym mis Tachwedd 2015.

Roedd yr adborth gan fusnesau twristiaeth ar yr asesiadau (2015/16) yn gadarnhaol iawn. Roedd 98 o ymatebwyr o'r farn bod proffesiynoldeb ac agwedd Aseswyr naill ai'n Ardderchog neu'n Dda Iawn, ac roedd 97% o ymatebwyr o'r farn bod ansawdd yr adroddiad asesu naill ai'n Ardderchog neu'n Dda Iawn.

**4.5** Gwella Cysylltedd i Gymru

Mae sicrhau bod cysylltedd llawer gwell ar gael yng Nghymru yn flaenoriaeth strategol hanfodol hyd at 2020, wrth i ni geisio creu cyrchfan gwirioneddol gystadleuol ar gyfer twristiaeth a mewnfuddsoddi, yn enwedig mewn cyd-destun rhyngwladol.

Nodir bod problemau o ran mynediad, yn broblemau canfyddedig ac yn broblemau go iawn, yn ffactorau pwysig sy'n atal pobl rhag ymweld â Chymru a rhag buddsoddi yng Nghymru. Gwyddom fod ein cwsmeriaid, hyd yn oed yn y DU, o'r farn bod

Cymru yn wlad sy'n anodd ei chyrraedd a'i bod yn anodd teithio o'i hamgylch hefyd. Mae ein diffyg cysylltedd rhyngwladol uniongyrchol yn ei gwneud hi'n anodd rhoi Cymru ar y map byd-eang, ac mae'n creu problemau ymarferol i ymwelwyr a chleientiaid o dramor.

Er bod Cymru wedi rhoi nifer o brosiectau llwyddiannus ar waith mewn partneriaeth â chwmnïau fferi, cwmnïau trên a chwmnïau awyrennau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae llawer i'w wneud er mwyn trechu materion o ran canfyddiadau byrdymor drwy hyrwyddo llwybrau sy'n bodoli eisoes yn fwy effeithiol. Mae angen cyflawni hyn ochr yn ochr ag ymdrechion i ymdrin â'r cyfle hirdymor i wella'r seilwaith trafnidiaeth sylfaenol yng Nghymru, ac i gefnogi gwell gwasanaethau i mewn ac allan o Gymru ar y ffordd, y rheilffordd, y môr a thrwy'r awyr.

Mae Croeso Cymru eisoes yn ymwneud â phrosiectau i wella opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy i dwristiaid sy'n awyddus i deithio o amgylch Cymru, ond ceir cyfle i gyfuno'r holl weithgareddau hyn er mwyn rhoi dull integredig a strategol ar waith hyd at 2020.

**Ffyrdd**

- Bydd Croeso Cymru yn parhau i weithio'n agos gydag Is-adran Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru i sicrhau y caiff anghenion twristiaeth eu hystyried fel rhan o gynlluniau seilwaith yn y dyfodol, yn ogystal ag unrhyw drafodaethau ar dollau Pont Hafren yn y dyfodol.
- Mae rhaglen hefyd ar y gweill i wneud mwy i ddatblygu a hyrwyddo llwybrau twristiaeth allweddol Cymru i ymwelwyr, unwaith eto ar y cyd â chydweithwyr yn yr Is-adran Trafnidiaeth. Mae Croeso Cymru yn ymgysylltu â gweithredwyr bysiau drwy ei weithgareddau masnach deithio, ond gellir datblygu hyn drwy gyflwyno dull gweithredu mwy strategol, gan gynnwys ymdrin â hygyrchedd bysiau a chyfleusterau ar fysiau - er mwyn sicrhau bod teithio ar fysiau yn datblygu yn y ffordd fwyaf effeithiol yn y dyfodol.

**Rheilffyrdd**

- Bydd Croeso Cymru yn parhau i weithio gydag Is-adran trafnidiaeth Llywodraeth Cymru i roi cyngor ar ofynion twristiaeth mewn perthynas â chytundebau masnachfraint rheilffordd yn y dyfodol.
- Rydym wedi rhoi nifer o ymgyrchoedd ar waith gyda'r cwmnïau trenau allweddol sy'n gwasanaethu Cymru, a byddwn yn anelu at feithrin y cydberthnasau hyn drwy ymgymryd â mwy o weithgareddau marchnata ar y rhwydwaith, mewn gorsafoedd, ac wedi'u hanelu at ddefnyddwyr yn gysylltiedig â'r datblygiadau cyflymder uchel y disgwylir iddynt gael eu rhoi ar waith yn ystod y 3-5 mlynedd nesaf.
- Mae Croeso Cymru/y tîm Marchnata yn chwarae rhan bwysig ym mhrosiect y Metro a byddant yn parhau i lywio'r broses o ddatblygu'r gwasanaeth a'r dull brandio/marchnata er mwyn sicrhau y caiff gofynion twristiaeth eu bodloni.

**Môr**

Ceir cyfleoedd i wneud mwy i ddatblygu twristiaeth i Gymru drwy ganolbwyntio ar gysylltedd drwy ein porthladdoedd a'n meysydd awyr allweddol. Byddwn yn ystyried

ein dull gweithredu yn y dyfodol mewn perthynas â gweithgareddau hyrwyddo llwybrau awyr/môr. Fodd bynnag, ceir cipolwg o'r blaenoriaethau presennol isod:

- Bydd Cruise Cymru Llywodraeth Cymru yn parhau i arwain y gwaith o gyflwyno rhaglen fordeithio gadarn a chynaliadwy i Gymru.
- Yn ddiweddar, cyflwynodd Croeso Cymru gyd-ymgyrchoedd llwyddiannus iawn gyda nifer o gludwyr môr sy'n gwasanaethu Cymru yn uniongyrchol, neu sy'n cludo marchnadoedd rhyngwladol allweddol i Borthladdoedd eraill ledled y DU. Mae'r partneriaid diweddar yn cynnwys DFDS Seaways, P&O Ferries ac Irish Ferries. Bydd Croeso Cymru yn parhau i gyflwyno ymgyrchoedd ymarferol, tactegol gyda'r partneriaid hyn gan ddatblygu'n gynyddol gysylltiadau mwy strategol gyda'r cwmnïau hyn ar yr un pryd - er mwyn ystyried cyfleoedd i ddatblygu llwybrau yn yr hirdymor, yn ogystal â chyfleoedd hyrwyddo aml-farchnad.

**Awyr**

- Y ffocws allweddol yw gweithio gyda Thîm Hedfanaeth newydd Llywodraeth Cymru, yn ogystal â VisitBritain, i ddatblygu strategaeth Datblygu Llwybrau i Gymru. Wrth ddatblygu'r strategaeth hon, bydd gweithgareddau i ategu cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg yn parhau i gael eu hystyried fesul achosion unigol.
- Gan weithio mewn partneriaeth â VisitBritain, bydd Croeso Cymru yn sicrhau y caiff Cymru ei chynrychioli fel cyrchfan yn World Routes 2016. Rydym wedi arddangos fel cyrchfan yn y gorffennol ynghyd â Maes Awyr Caerdydd yn Routes 2013 Las Vegas, 2014 Chicago a 2015 Durban.
- Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda phartneriaid o Feysydd Awyr a Chwmnïau Awyrennau i ystyried blaenoriaethau o ran datblygu llwybrau newydd strategol. Mae Croeso Cymru wedi cyflwyno amrywiaeth o ymgyrchoedd hyrwyddo llwybrau ar y cyd gyda chwmnïau awyrennau. Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â chwmnïau awyrennau a meysydd awyr er mwyn hyrwyddo llwybrau hedfan i Gymru neu feysydd awyr allweddol yn ein marchnadoedd targed allweddol, gyda'r nod o sicrhau cynnydd amlwg o ran lefelau teithwyr i mewn i Gymru.

**Canolfannau Trafnidiaeth**

Bydd tîm brand Croeso Cymru yn gweithio gyda phartneriaid yn y pyrth trafnidiaeth allweddol yng Nghymru, yn ogystal â phwyntiau mynediad pwysig y tu allan i Gymru, megis gorsafoedd Euston a Paddington, er mwyn gwella gwelededd Cymru a phrofiad ymwelwyr yn y canolfannau hyn.

## 5. DIGWYDDIADAU MAWR

**5.1** Nodau Strategol

Mae *Partneriaeth ar gyfer Twf* yn cydnabod pwysigrwydd digwyddiadau mawr i'r economi twristiaeth, yn enwedig lle y gallant helpu i ehangu'r 'tymor' twristiaeth drwy ddenu ymwelwyr i Gymru yn ystod y misoedd ymylol. Mae hefyd yn nodi'r angen i gydbwyso cefnogaeth tuag at ddenu digwyddiadau newydd â'r angen i feithrin

digwyddiadau cartref sy'n bodoli eisoes sydd â'r potensial i dyfu a newid canfyddiadau o Gymru mewn ffordd gadarnhaol.

Caiff Strategaeth Digwyddiadau Llywodraeth Cymru ei chyflwyno gan Uned Digwyddiadau Mawr Croeso Cymru, ac mae'n anelu at ddatblygu statws Cymru fel cyrchfan digwyddiadau o'r radd flaenaf.

**5.2** Cynnydd Hyd Yma

Mae'r portffolio o ddigwyddiadau a gefnogir yn nodweddiadol yn cynnwys rhwng 30 a 40 o ddigwyddiadau bob blwyddyn. Ers 2013, llwyddwyd i ddenu nifer o ddigwyddiadau mawr nodedig i Gymru neu datblygwyd nifer o ddigwyddiadau o'r fath yng Nghymru, gan gynnwys y canlynol:

- **Gŵyl Gomedi Machynlleth:** twf mewn ymwelwyr o 500 i fwy na 5,000 yn 2015 gan ddenu sylw gan BBC Radio 4 Extra, BBC Radio Wales, The Guardian a'r Independent.
- **Cyfres y Lludw:** denodd 59,000 o wylwyr gyda brand Cymru cryf mewn mannau strategol ledled Caerdydd yn sicrhau'r sylw darlledu gorau posibl ledled y byd.
- **Gŵyl Rhif 6:** a gynhelir ym Mhentref Portmeirion gan ddarparu lleoliad unigryw i ŵyl gyda phrofiad Cymreig arbennig. Mae'n denu 15,000 o ymwelwyr, 1,000 o artistiaid a thros 300 o aelodau o'r wasg ac yn parhau i gael canmoliaeth feirniadol o hyd.
- **Cwpan Rygbi'r Byd** a ddenodd ymwelwyr o Iwerddon, Canada, yr Ariannin, Fiji, Awstralia, Seland Newydd, Ffrainc, Georgia ac Uruguay gyda thros 15,000 yn ymweld â'r Ardal Cefnogwyr lle y rhoddodd Croeso Cymru gymorth i unigolion â'u cynlluniau teithio ledled Cymru.
- **Gŵyl Undod Hijinx**, sef un o wyliau celfyddydau cynhwysol mwyaf Ewrop sy'n denu dros 14,000 o ymwelwyr, gan gynnwys unigolion o Mozambique, Ffrainc, yr Almaen, Gwlad Belg a'r Eidal.

Amcangyfrifir bod rhaglen digwyddiadau a gefnogir yr Uned Digwyddiadau Mawr yn 2015/16 wedi denu 850,000 o ymwelwyr i Gymru, gan gael effaith economaidd uniongyrchol o £125 miliwn a chefnogi 2,800 o swyddi.

**5.3** Blaenoriaethau hyd at 2020 a thu hwnt

Mae'r gyllideb digwyddiadau mawr wedi'i neilltuo'n llwyr ar gyfer 2016-17 a 2017-18, gyda digwyddiadau wedi'u trefnu megis Rownd Derfynol Cynghrair y Pencampwyr yn 2017, a Ras Cefnforoedd Volvo a Chystadleuaeth Golff Agored Cymru i Bobl Hŷn yn 2018. O ganlyniad, fel rhan o'r broses hon o adolygu'r strategaeth, rydym wedi bod yn cynnal ymarfer 'sganio'r gorwel', gyda rhanddeiliaid allweddol, er mwyn edrych yn strategol ar gyfleoedd newydd i ddenu mwy o **ddigwyddiadau chwaraeon a diwylliannol rhyngwladol mawr** i Gymru yn ystod y cyfnod o 2019 i 2025.

Mae blaenoriaethau yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn cynnwys y canlynol:

- Denu digwyddiadau proffil uchel newydd sy'n denu ymweliadau gwariant uchel o'r tu allan i Gymru.
- Cefnogi'r Blynyddoedd Thematig gyda digwyddiadau angori eisoes wedi'u cynllunio ar gyfer y Flwyddyn Antur, y Flwyddyn Chwedlau a Blwyddyn y Môr.
- Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd brandio ar gyfer pob digwyddiad er mwyn darparu profiad Cymreig nodedig a chynhyrchu cynnwys gwerthfawr a chyhoeddusrwydd am ddim ledled y byd.
- Rhoi cyhoeddusrwydd i galendr o ddigwyddiadau sy'n mynd rhagddynt yng Nghymru a darparu gwybodaeth i ymwelwyr ac ymgymryd â gweithgareddau hyrwyddo drwy lwyfannau cyfryngau ac ymgyrchoedd Croeso Cymru er mwyn creu cyfleoedd ar gyfer ymweliadau estynedig drwy gydol y flwyddyn gydag unigolion yn dewis dychwelyd i ymweld eto.

Mae'r posibilrwydd o gynnal Gemau'r Gymanwlad 2026 yn cael ei ystyried ar wahân ac yn ychwanegol at y gwaith hwn.

## 6. DATBLYGU POBL

### **6.1** Nodau strategol

Mae'r uchelgeisiau strategol a nodir yn y cynllun gweithredu ar gyfer *Partneriaeth ar gyfer Twf* fel a ganlyn:

- Hyfforddi ein pobl mewn sgiliau wedi'u harwain gan alw a sgiliau arbenigol er mwyn iddynt allu ffynnu yn y sector twristiaeth.
- Cymhwyso safonau a sgiliau wedi'u diffinio'n glir er mwyn gwella gofal a gwasanaethau cwsmeriaid.
- Newid canfyddiadau o dwristiaeth fel dewis gyrfa er mwyn denu pobl dalentog ac uchelgeisiol.
- Datblygu rhwydwaith rhanbarthol o ganolfannau a gydnabyddir yn rhyngwladol ar gyfer sgiliau lletygarwch a thwristiaeth.

### **6.2** Cynnydd Hyd Yma

Nid oes gan Croeso Cymru unrhyw gylch gwaith i ariannu na darparu hyfforddiant yn uniongyrchol i'r diwydiant. Ei rôl yw helpu i nodi anghenion hyfforddi a datblygu strategol y diwydiant, helpu i godi proffil cyfleoedd gyrfaol yn y sector a chyfeirio busnesau twristiaeth at wybodaeth a chymorth hyfforddi perthnasol sydd ar gael.

Mae Croeso Cymru yn gweithio gydag Adran Addysg Llywodraeth Cymru, Pobl yn Gyntaf, Gyrfa Cymru a'r sector addysg a hyfforddiant er mwyn sicrhau bod y strwythurau hyfforddiant a chymwysterau priodol ar waith i ddatblygu perfformiad y sector twristiaeth. Y dull gweithredu fu nodi'r ffrydiau gwaith blaenoriaeth lle y gallai Croeso Cymru gael yr effaith fwyaf.

Mae Croeso Cymru wedi cymryd y camau gweithredu canlynol yn unol â'r nodau strategol hyn:

- gweithio gyda BHA Cymru i gynnal prosiect peilot i hyrwyddo cyfleoedd gyrfa yn y sector twristiaeth i Ysgolion Uwchradd, gyda nifer o westai ledled Cymru yn agor eu drysau i grwpiau o blant ysgol gael profi'r amrywiaeth o swyddi yn y sector.
- mynd i Skills Cymru i hyrwyddo cyfleoedd gyrfa yn y sector twristiaeth a'r sector lletygarwch ac mae'n gweithio agos â Gyrfa Cymru i adfywio ei dudalennau gwefan Twristiaeth ac ar ei raglen i ysgolion.
- cefnogi prosiect "Putting People First" yn Sir Benfro a gynlluniwyd i feithrin talent leol a datblygu model ar gyfer cynnig profiadau o safon ryngwladol i ymwelwyr.
- gweithio gyda People 1st i ymchwilio i flaenoriaethau hyfforddi ar gyfer y sector a nododd yr angen i wella hyfforddiant gwasanaethau cwsmeriaid ac mae Croeso Cymru wedi ariannu sawl cais sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cwsmeriaid ledled Cymru.
- mynd ati i hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi perthnasol, gan gynnwys cyfeirio busnesau at Borth Sgiliau Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Cymorth Ar-lein newydd i Fusnesau sy'n cynnig modiwlau hyfforddiant ar-lein am ddim i gyflogwyr a chyflogeion eu defnyddio.
- hyrwyddo rhaglen Chwarae Teg i'r diwydiant, sy'n cefnogi cyfleoedd datblygu gyrfa i ferched ac yn helpu cyflogwyr i wella eu trefniadau recriwtio, eu harferion gwaith a'u polisïau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.
- cyflwyno gofyniad newydd bod yn rhaid i ymgeiswyr am gyllid Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth Llywodraeth Cymru gynnwys cynllun hyfforddiant sgiliau manwl er mwyn sicrhau bod ansawdd y staff a gyflogir yn gwella yn yr un modd ag ansawdd y cynnyrch.
- cefnogi'r broses o ddatblygu Prentisiaeth Rhaglenni Awyr Agored Lefel 4 newydd drwy ein gwaith gyda Sefydliad Twristiaeth Antur Cymru.
- hyrwyddo Rhaglen Cyfnewid Erasmus+ i Raddedigion er mwyn ymdrin â'r diffyg ieithoedd tramor modern yn y sector twristiaeth. Cyflwynodd Croeso Cymru Raglen Taith Ddysgu beilot sy'n anelu at gyflwyno gwelliannau ansawdd a rhagoriaeth mewn gwasanaethau cwsmeriaid gan ddefnyddio dull dysgu rhwng cymheiriaid gan gysylltu busnesau yng Nghymru â gweithredwyr o safon. Hyd yn hyn, mae 64 o fusnesau wedi mynd i'r digwyddiadau taith ddysgu gan arwain at 68 o gamau gweithredu i wella busnesau.
- caiff y profiad a gaiff ein teithwyr mordaith yng Nghymru ei gyfoethogi os caiff eu teithiau ar y tir eu tywys gan dywyswyr sy'n siarad iaith dramor; rydym wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau bod y sgiliau priodol ar waith i ddarparu'r gwasanaeth hwn i'n hymwelwyr o dramor.

**6.3** Blaenoriaethau hyd at 2020

Gan symud ymlaen, cytunir yn gyffredinol na ddylai cylch gwaith Croeso Cymru ehangu y tu hwnt i'r rôl cydgysylltu a dylanwadu strategol bresennol. Mae ymchwiliadau yn awgrymu, ac eithrio hyfforddiant gwasanaethau cwsmeriaid, bod digon o hyfforddiant ar gael i ddiwallu anghenion cyffredinol y diwydiant twristiaeth mewn sefydliadau AB ac AU. Y flaenoriaeth yw sicrhau bod y diwydiant yn ymwybodol o'r hyfforddiant sydd ar gael a'i fod yn manteisio ar yr hyfforddiant hwnnw.

Mae camau gweithredu blaenoriaeth allweddol Croeso Cymru fel a ganlyn:

- parhau i weithio gyda'r Adran Addysg a'r sector addysg a hyfforddiant i ddylanwadu ar yr amrywiol raglenni hyfforddi sgiliau a chynlluniau prentisiaeth i sicrhau eu bod yn cefnogi'r sector twristiaeth ac yn parhau'n gydnaws ag anghenion cyfnewidiol y diwydiant a chwsmeriaid.
- anelu at sicrhau mwy o gyfranogiad gan fusnesau twristiaeth ym Mhorth Sgiliau Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Cymorth Ar-lein newydd i Fusnesau.
- ystyried rôl Aseswyr Ansawdd wrth hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer meithrin sgiliau a hyfforddi a chyfeirio busnesau at y cyfleoedd hynny a chyfleu anghenion y diwydiant.
- ariannu'r rôl gydgysylltu ar gyfer nifer fach o gyrchfannau gan eu helpu i gyflawni statws Cyrchfan World Host ac i ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd i ddatblygu safonau arfer gorau ar gyfer cyrchfannau eraill ledled Cymru.
- cyflwyno Gwobr Twristiaeth Genedlaethol ar gyfer rhagoriaeth mewn gwasanaethau cwsmeriaid yn 2017/18.
- ar y cyd â'r Adran Addysg, ymchwilio i'r posibilrwydd o ddatblygu elfen gwasanaethau cwsmeriaid fel rhan o Fagloriaeth Cymru.
- ehangu'r prosiect Teithiau Dysgu er mwyn datblygu arfer gorau yn seiliedig ar flaenoriaethau strategol allweddol a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys twristiaeth fusnes, ac er mwyn sicrhau bod y broses o drosglwyddo gwybodaeth i gyfranogwyr ac ar draws y diwydiant ehangach mor fuddiol â phosibl.
- parhau i hyrwyddo a chyfleu mentrau partneriaid wedi'u hanelu at newid canfyddiadau o yrfaoedd ym maes twristiaeth.
- annog busnesau i ddarparu tywyswyr cymwys a chenhadon lleol sy'n meddu ar sgiliau iaith addas i fodloni gofynion ymwelwyr rhyngwladol.

## 7. MEITHRIN LLE

### 7.1 Nodau strategol

Mae *Partneriaeth ar gyfer Twf* yn nodi mai'r flaenoriaeth yw gweithio mewn partneriaeth i reoli, datblygu a hyrwyddo cyrchfannau ledled Cymru er mwyn sicrhau'r buddiannau gorau posibl ym maes twristiaeth a bodloni dyheadau'r gymuned ehangach. Mae'r amcanion fel a ganlyn:

- Cefnogi dull gweithredu Rheoli Cyrchfannau er mwyn gwella apêl y farchnad a'r profiad o ymweld â chyrchfannau twristiaeth ledled Cymru.
- Hyrwyddo cyrchfannau eiconig gyda naws nodedig am le a phrofiadau dilys gan gynnwys Caerdydd fel Prifddinas a gydnabyddir yn rhyngwladol.
- Manteisio ar y potensial i hyrwyddo twristiaeth fel cyfrwng o feithrin ac adfywio lleoedd fel rhan o economi gymysg, amrywiol a chynaliadwy.
- Gwella cysylltedd ffisegol a thechnolegol gan gynnwys maes awyr rhyngwladol ffyniannus a chysylltiadau i feysydd awyr cyfagos.

**7.2** Cynnydd Hyd Yma

Bu'r diwydiant a rhanddeiliaid lleol yn gweithio mewn partneriaeth i roi'r dull gweithredu ar waith er mwyn datblygu, rheoli a hyrwyddo amrywiaeth o gyrchfannau apelgar a nodedig i dwristiaid ac ymwelwyr eraill. Mae camau gweithredu penodol yn cynnwys y canlynol:

- Rhoi cymorth parhaus i'r Partneriaethau Rheoli Cyrchfannau sefydledig er mwyn datblygu eu cynlluniau gweithredu a'u rhoi ar waith, ond ceir cynnydd cymysg gyda rhai cyrchfannau yn llwyddo i feithrin partneriaethau cryfach gyda'r sector cyhoeddus/preifat a rhoi cynlluniau gweithredu ar waith yn fwy effeithiol.
- Yn 2014-2015, neilltuodd Croeso Cymru dros £1.25m i 32 o brosiectau drwy'r cronfeydd Ymgysylltu Rhanbarthol a Phartneriaeth ar gyfer Twf er mwyn helpu cyrchfannau i gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yn eu Cynlluniau Rheoli Cyrchfannau o ran cynhyrchion a marchnata integredig. Roedd y prosiectau yn amrywio o ran eu cwmpas o lwybrau seiclo newydd a ddatblygwyd yng Ngwynedd ac a enwyd er anrhydedd i Syr David Brailsford, i brosiect Awyr Dywyll cyfun gan y Parciau Cenedlaethol a pharhau i gefnogi rhaglenni cenhadon twristiaeth ledled cyrchfannau yng Nghymru.
- Targedodd Croeso Cymru Gronfa Arloesedd Cynhyrchion Twristiaeth newydd i'r sector preifat ddatblygu cynnwys am gyrchfannau a mentrau cydweithredol sy'n gydnaws â blaenoriaethau strategol megis ymgysylltu â'r Flwyddyn Antur. Yn 2014-15, darparodd Croeso Cymru £328k i 15 o brosiectau.

At hynny, mae cwmpas a chysylltedd band eang da yn bwysig iawn i'r diwydiant twristiaeth er mwyn i fusnesau hyrwyddo eu hunain yn effeithiol ac er mwyn i ymwelwyr sy'n awyddus i wneud hynny allu defnyddio'r rhyngrwyd yn ystod eu hymweliad. Mae'r diwydiant wedi codi pryderon am y bylchau o ran darpariaeth band eang ac mae'n gweithio gyda thimau perthnasol Llywodraeth Cymru i roi'r agenda ar gyfer y sector twristiaeth ar waith.

**7.3** Blaenoriaethau hyd at 2020

Dengys gwaith ymchwil y bu dosbarthiad da o ran twf mewn ymwelwyr ledled Cymru a bod profiad a boddhad ymwelwyr yn uchel. Fodd bynnag, nifer gymharol fach o frandiau cyrchfan sefydledig sydd yng Nghymru o hyd sydd mor adnabyddus â'r prif leoliadau gwyliau a chyrchfannau o ran gwyliau dinas mewn rhannau eraill o'r DU. Mae angen cysoni ein dull gweithredu mewn perthynas â Phartneriaethau Rheoli Cyrchfannau a'r ddarpariaeth marchnata cyrchfannau a gwybodaeth am gyrchfannau yn well. Ceir cyfleoedd pellach hefyd i atgyfnerthu a chynnal y rhwydwaith cyrchfannau ymwelwyr ledled Cymru er mwyn iddynt ddarparu profiadau amrywiol, unigryw o ansawdd uchel i ymwelwyr, sy'n hawdd eu cyrraedd o'n marchnadoedd allweddol. Mae'n gyfnod anodd o ran cyfyngiadau ar adnoddau cyhoeddus a gall hyn gael effaith sylweddol ar gynnal yr amgylchedd i ymwelwyr a darparu gwasanaethau twristiaeth ar lefel cyrchfannau.

Mae'r blaenoriaethau allweddol sy'n cael eu hystyried fel a ganlyn:

- Cynnal archwiliad o'r dull gweithredu mewn perthynas â phartneriaethau cyrchfan er mwyn penderfynu sut y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r partneriaethau sector cyhoeddus/preifat yn y dyfodol i gefnogi rhwydwaith o gyrchfannau cynaliadwy a gaiff eu datblygu a'u hyrwyddo yn unol ag anghenion y farchnad a blaenoriaethau lleol.
- Sicrhau bod y cymorth ariannol ar gyfer datblygu cynhyrchion yn gydnaws â blaenoriaethau rheoli cyrchfannau er mwyn sicrhau y caiff mas critigol o gynhyrchion addas ei ddatblygu mewn lleoliadau allweddol gan sicrhau'r buddiannau gorau posibl a gallu i ddatblygu cyrchfannau yn ehangach.
- Nodi cyrchfannau â'r potensial mwyaf o ran twf a hyrwyddo cryfder yn y farchnad fel brandiau lleoedd cyrchfan is-genedlaethol arweiniol.
- Gwneud y defnydd gorau o gyfanswm cyllid o £85m a sicrhawyd yn ddiweddar gan yr UE (ERDF) (gyda chyfraniad o £27.7m gan ERDF), a fydd yn helpu i gyflwyno buddsoddiadau seilwaith twristiaeth strategol mewn 11 o gyrchfannau arfordirol, hanesyddol ac antur ledled Cymru.
- Hyrwyddo'r pecynnau cymorth ar-lein newydd i helpu'r diwydiant i ddatblygu dull gweithredu cynaliadwy a naws nodedig am le.
- Bydd Croeso Cymru yn parhau i roi cyngor polisi strategol ar bwysigrwydd twristiaeth a'r buddiannau y gellid eu gwireddu o'r buddsoddiad mewn seilwaith megis buddsoddi yn yr M4 a thrydaneiddio'r rheilffyrdd.

## 8 PERFFORMIAD PROFFIDIOL

**8.1** Nodau Strategol

Mae Partneriaeth ar gyfer Twf yn strategaeth i'r diwydiant cyfan sy'n cydnabod y cyfraniad blaenllaw y mae busnesau yn ei wneud tuag at berfformiad proffidiol a thwf yr economi ymwelwyr. Mae'n nodi nod i gynyddu enillion twristiaeth cyffredinol hyd at 2020 ac i atgyfnerthu hyfywedd a natur gystadleuol mentrau a sicrhau y cedwir y gyfran uchaf bosibl o incwm yn lleol drwy gadwyni cyflenwi.

**8.2** Cynnydd Hyd Yma

Ceir tystiolaeth bod busnesau a gafodd gefnogaeth drwy gyllid TISS Croeso Cymru wedi llwyddo i ddenu buddsoddiad a lwyddodd, yn ei dro, i arwain at gynnydd o ran refeniw ymwelwyr a gwell proffidioldeb. Ceir cyswllt hefyd rhwng busnesau yn cyflawni sgoriau ansawdd uwch a lefelau deiliadaeth uwch sy'n benderfynydd allweddol o ran proffidioldeb a natur gystadleuol.

Mae adran Marchnata ac Uned Digwyddiadau Mawr Croeso Cymru yn cefnogi rhaglenni sy'n dychwelyd enillion amlwg ac uchel ar fuddsoddiadau gan ddylanwadu ar lefelau cynyddol o wariant cynyddrannol gan ymwelwyr.

Ceir rhai arwyddion calonogol o dwf mewn arenillion cyfartalog gan ymwelwyr o deithiau i Gymru yn ystod y 5 mlynedd diwethaf. Mae'r gwariant cyfartalog fesul taith gan ymwelwyr domestig sy'n aros wedi cynyddu ar gyfraddau uwch na chwyddiant gyda thwf arbennig o gryf o ran arenillion gan ymwelwyr gwyliau. Fodd bynnag, ceir her strategol o hyd i gynyddu arenillion gan ymwelwyr a lefelau deiliadaeth sydd ar ei hôl hi o hyd o gymharu â rhannau eraill o'r DU. Mae angen taro cydbwysedd gofalus

gan fod cyllidebau gwyliau defnyddwyr yn parhau'n gyfyngedig a dengys gwaith ymchwil diweddar bod gwerth am arian yn ffactor dylanwadol arweiniol o hyd wrth wneud penderfyniadau am wyliau. Mae gan Gymru ganfyddiad cystadleuol cryf ar gyfer cynnig gwerth da ac mae'n bosibl iawn mai'r prisiau a'r gwerthoedd cystadleuol hyn oedd un o'r ffactorau a oedd yn gyfrifol am lwyddiant Cymru i ragori ac i sicrhau cyfran gynyddol o'r farchnad ymwelwyr domestig sy'n aros yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae cyflwyno'r cyflog byw statudol newydd, cyfraddau TAW cymharol uwch a pholisi trethiant ehangach oll yn cael effaith sylweddol ar gostau a phroffidioldeb busnesau.

**8.3** Blaenoriaethau hyd at 2020

- Croeso Cymru i fonitro canfyddiadau cystadleuol o werth am arian a rhoi cyngor i'r diwydiant am amodau cyfnewidiol yn y farchnad a senstifrwydd prisiau marchnadoedd allweddol a chyfleoedd iddynt uwchraddio, atgyfnerthu ac ehangu eu hapêl yn y farchnad.
- Busnesau yng Nghymru i ddefnyddio dulliau rheoli arenillion a marchnata cwsmeriaid effeithiol i annog ymweliadau gwerth ychwanegol, arosiadau hwy ac ymweliadau gan ymwelwyr sy'n dychwelyd, gyda'r nod o wella profiad cwsmeriaid, cynyddu lefelau deiliadaeth a chynyddu proffidioldeb drwy gydol y flwyddyn.
- Croeso Cymru i dargedu gweithgareddau marchnata at farchnadoedd sy'n weithredol drwy gydol y flwyddyn ac sy'n cynnig arenillion uwch, gan gynnwys cynyddu nifer y teithiau gan ymwelwyr rhyngwladol, busnes a digwyddiadau, ymweliadau diwylliannol a gweithgareddau, ymwelwyr newydd sy'n ymweld am y tro cyntaf a chydbwysedd rhwng gwyliau byr ac arosiadau hwy.
- Croeso Cymru i dargedu cymorth at fusnesau a digwyddiadau a all ddangos y gallant gynyddu ymweliadau arenillion uwch, gweithredu drwy gydol y flwyddyn a chynyddu gwariant eilaidd a chyflogaeth yn yr economi leol i'r eithaf.
- Datblygu brand Cymru a negeseuon marchnata er mwyn datblygu cynnig gwerth cryf a hyrwyddo brand premiwm mwy nodedig sy'n cynnig gwell profiad.
- Partneriaethau Cyrchfan i ystyried ffyrdd o annog gwariant eilaidd yn yr economi leol gan ymwelwyr a busnesau gan ddarparu profiad nodedig a dilys sy'n hyrwyddo bwyd a diod, y celfyddydau, crefftau a digwyddiadau lleol a siopau lleol arbenigol.
- Croeso Cymru i ystyried effaith trethiant a datblygiadau polisi perthnasol ar gostau, natur gystadleuol a chynaliadwyedd busnesau twristiaeth a chyfleu hynny i arweinwyr polisi perthnasol.

## 9. PARTNERIAETH

**9.1** Nodau Strategol

Mae pwysigrwydd cydberthnasau cadarn a strwythurau a sicrhau bod strwythurau a ddeellir yn glir ar waith er mwyn gallu ymgysylltu'n effeithiol o fewn diwydiant sy'n hynod dameidiog o hyd yn sail i *Partneriaeth ar gyfer Twf* a'r strategaeth hon.

Mae'r nodau strategol allweddol fel a ganlyn:

- Annog dull gweithredu fel tîm gydag amcanion, atebolrwyddau a chyfrifoldebau clir.
- Cefnogi cyfathrebu dwy ffordd ar gyfer rhannu gwybodaeth, dealltwriaeth o'r farchnad, cynnwys ac ymgysylltu eang â rhaglenni cyflwyno a phrosesau datblygu polisi.
- Gwella ansawdd profiad ymwelwyr ar lefel cyrchfannau lleol, drwy roi atebion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol cydgysylltiedig ar waith.
- Sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael yn cyflawni mwy i dwristiaeth yng Nghymru.

**9.2** Cynnydd hyd yma

Rhoddwyd strwythur newydd symlach ac intregedig ar waith ar gyfer ymgysylltu ym maes twristiaeth, gan gynnwys y canlynol:

- *Cenedlaethol* - mae'r Bwrdd Cynghori Twristiaeth yn rhoi cyngor ar y cyfeiriad strategol i'r sector.
- *Rhanbarthol* - mae Croeso Cymru wedi sefydlu pedwar Fforwm Rhanbarthol, a ddefnyddir fel ffordd allweddol o rannu gwybodaeth a chyfeiriad gan y Bwrdd Cynghori Twristiaeth cenedlaethol a chyda'r Bwrdd hwnnw, gan gynnig cyfle ar yr un pryd i godi cyfleoedd a materion o fewn pob rhanbarth.
- *Lleol* - mae Croeso Cymru yn annog y defnydd o drefniadau rheoli cyrchfannau drwy greu partneriaethau rheoli cyrchfannau rhwng y sector cyhoeddus/preifat. Mae aelodau allweddol o bob partneriaeth yn cynrychioli'r gyrchfan ehangach ar y fforwm rhanbarthol, sy'n cwblhau'r cyswllt o'r lefel genedlaethol i'r lefel leol.
- *Sector* - Cyrff Diwydiant cynrychioliadol gan gynnwys Cymdeithas Lletygarwch Prydain, Sefydliad Twristiaeth Antur Cymru, Cynghrair Twristiaeth Cymru, Cymdeithas Atyniadau Ymwelwyr Cymru, Cymdeithas Tywyswyr Twristiaid Swyddogol Cymru a Farm Stay Cymru, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, sy'n cynrychioli buddiannau eu sector gan gynnwys cyswllt rheolaidd â Croeso Cymru.

**9.3** Blaenoriaethau hyd at 2020

Mae'r adborth o'r adolygiad o gynnydd y strategaeth yn nodi cefnogaeth gyffredinol i'r strwythur newydd ar gyfer ymgysylltu rhwng rhanddeiliaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Y farn yw bod gan Croeso Cymru rôl barhaus wrth hwyluso datblygiad y Ffora Rhanbarthol newydd ac y dylai'r rhain gynyddu rôl y sector preifat wrth eu cyflwyno ac atgyfnerthu trefniadau cyfathrebu gyda Phartneriaethau Rheoli Cyrchfannau a chymdeithasau twristiaeth lleol.

Mae pwysigrwydd cymdeithasau twristiaeth o ran rhwydweithio a chydweithredu rhwng busnesau ar lefel leol yn amlwg. Maent hefyd yn cynnig cyfrwng da i Croeso Cymru ymgysylltu â'r sector mewn modd rhagweithiol drwy'r dull rheoli cyrchfannau. Wedi dweud hynny, mae strwythur a gallu cymdeithasau twristiaeth yn amrywio ledled Cymru, a cheir pryderon o ran eu cynaliadwyedd hirdymor yn y dyfodol. Er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gefnogi trefniadau cyflwyno lleol mewn ffordd briodol a chyson, mae Croeso Cymru yn chwarae rhan arweiniol mewn darn o waith


a fydd yn ystyried y posibilrwydd o ddatblygu meini prawf ar gyfer cefnogi cymdeithasau twristiaeth yn y dyfodol.


Ceir pryderon helaeth, er gwaethaf pwysigrwydd yr economi ymwelwyr ledled Cymru, bod Awdurdodau Lleol o dan bwysau i leihau costau ac felly y gallai hyn effeithio ar wasanaethau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, gan gynnwys marchnata cyrchfannau, darparu gwybodaeth i dwristiaid ac amwynderau i ymwelwyr. Mae gan Croeso Cymru ran i'w chwarae wrth sicrhau bod angen egluro buddiannau twristiaeth a goblygiadau unrhyw doriadau yn gliriach i wneuthurwyr penderfyniadau allweddol ar bob lefel.


Mae'r camau gweithredu blaenoriaeth fel a ganlyn:

- Rhoi systemau llywodraethu gwell ar waith er mwyn sicrhau llif gwybodaeth rhwng Ffora Rhanbarthol, Partneriaethau Rheoli Cyrchfannau a chymdeithasau twristiaeth lleol.
- Adolygu rôl Cymdeithasau Twristiaeth a sut y gall Croeso Cymru a rhanddeiliaid eu cefnogi yn y ffordd fwyaf effeithiol yn y dyfodol.
- Cynnal archwiliad o'r strwythur Rheoli Partneriaethau Cyrchfan er mwyn blaenoriaethu ac ailffocysu cymorth ariannol iddynt gan ddibynnu ar eu hymrwymiad a'u gallu i roi'r camau gweithredu yn eu cynlluniau sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau strategol ehangach ar waith.
- Parhau i ymgynghori â chyrff allweddol y diwydiant er mwyn helpu i lywio strategaethau, polisïau a chyflwyno rhaglenni.
- Llunio gwell tystiolaeth a gwybodaeth ar lefel ranbarthol ac ar lefel cyrchfannau a'u cyfleu'n ehangach i'r diwydiant ac i wneuthurwyr penderfyniadau allweddol ar lefel leol er mwyn sicrhau y caiff cyllidebau eu diogelu a'u dyrannu i adlewyrchu buddiannau, gofynion ac effeithiau'r economi ymwelwyr.
- Sicrhau yr ymgysylltir yn effeithiol â chyrff Economaidd Rhanbarthol er mwyn sicrhau y caiff twristiaeth ei hystyried a'i blaenoriaethu yn eu cynlluniau ac y caiff y cynlluniau hyn eu hintegreiddio â chynlluniau rheoli cyrchfannau lleol a blaenoriaethau twristiaeth strategol.
- Gwell ymgysylltu â gwneuthurwyr penderfyniadau allweddol ar lefel Awdurdodau Lleol.

### Atodiad 1: Perfformiad y Farchnad




Cyfran Cymru o deithiau i mewn i Gymru a gwariant gan ymwelwyr rhyngwladol i'r DU
ffynhonnell IPS
4.0%
3.5%
3.0%
2.5%
2.0%
1.5%
1.0%
0.5%
0.0%
2002
2003
2004
2005
2006
2007
2008
2009
2010
2011
2012
2013
2014
2015
3.6%
3.6%
3.7%
3.2%
3.5%
3.0%
3.3%
3.3%
3.0%
2.9%
2.7%
2.7%
2.7%
2.7%
2.2%
2.3%
2.4%
2.2%
2.3%
2.1%
1.9%
2.0%
2.0%
1.8%
1.9%
1.7%
1.7%
1.9%
Pob Taith i mewn i Gymru
Yr Holl Wariant i mewn i Gymru

**Atodiad 2: Matrics y Farchnad**

| | **Proffil** | **Trefniadau Cyflwyno** | **Argymhelliad** |
|---|---|---|---|
| **Yng Nghymru** | Marchnad unigol fwyaf twristiaeth yng Nghymru. Yn hanfodol ar gyfer arosiadau ac ymweliadau dydd a'r farchnad 'Ymweld â Ffrindiau a Pherthnasau'.<br><br>Yn cynnig cyfle i gynyddu gwyliau yn ystod y misoedd ymylol.<br><br>Hefyd yn cynrychioli cymuned o Genhadon ar gyfer brand Cymru. | Marchnata o dan arweiniad Croeso Cymru:<br>— Ymgyrch ledled y DU wedi'i chyflwyno yng Nghymru; wedi'i hategu gan bartneriaethau yn y cyfryngau. | **Profi**<br><br>Symud adnoddau o 'hysbysebu' i waith cymdeithasol/cyfryngau wedi'i arwain gan gynnwys.<br><br>Cyflwyno mwy drwy bartneriaethau cyrchfannau/diwydiant.<br><br>Ystyried cyfleoedd twristiaeth cymdeithasol. |
| **Domestig - DU** | Yn cynrychioli 90% o'r ymwelwyr sy'n aros ac 82% o wariant gan ymwelwyr.<br><br>Mae Cymru yn dibynnu ar y farchnad hon, ond mae cyfle i symud y ffocws tuag at grwpiau newydd sy'n cynnig arenillion uwch ac i ysgogi twf drwy gydol y flwyddyn. | Marchnata o dan arweiniad Croeso Cymru:<br>— Ymgyrchoedd aml-sianel mawr gan gynnwys teledu, digidol, print.<br>— Marchnata partneriaethau, sy'n gweithio'n dda. | **Ffocws**<br><br>Symud y pwyslais i farchnadoedd newydd sy'n cynnig arenillion uchel a'r misoedd ymylol.<br><br>Integreiddio'n well â threfniadau marchnata busnesau yn Llundain.<br><br>Gweithio gyda chyrchfannau a'r diwydiant i dargedu 'rhanbarthau' yn Lloegr. |
| **Iwerddon** | Dirywiad hirdymor o ran ymweliadau gan y farchnad hon a lefel isel o ymateb i ymgyrchoedd.<br><br>Mae cysylltiadau diwylliannol a thrafnidiaeth cryf yn | Marchnata o dan arweiniad Croeso Cymru.<br>— Ehangwyd Ymgyrch y DU i'r farchnad hon.<br>— Elfen partneriaeth gref gyda chwmnïau fferi. | **Adolygu**<br><br>Ystyried trefniadau cyflwyno yn y dyfodol drwy bartneriaid cyrchfan/diwydiant yn seiliedig ar ddull gweithredu wedi'i arwain gan |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cynnig cyfleoedd ond mae angen adolygu dull gweithredu Croeso Cymru. | | gynhyrchion.<br><br>Mae trefniadau i weithio'n agosach â Llywodraeth Cymru ar y trywydd cywir.<br><br>Gwaith parhaus i ddatblygu/hyrwyddo llwybrau. |
| **Yr Almaen** | Rhagolygon twf cadarn i Gymru, gyda chynnydd mewn ymwelwyr yn 2015. Dwy flynedd ers lansio'r ymgyrch, rydym ar y trywydd cywir - angen cynnal y sefyllfa hon er mwyn profi effaith ein gwaith yn briodol a chyflawni elw ar fuddsoddiad. | Marchnata o dan arweiniad Croeso Cymru:<br>• uwchlaw ac islaw'r llinell;<br>• defnyddwyr a rhwng busnesau;<br>• aml-sianel h.y. print/sinema/awyr agored; marchnata digidol; cysylltiadau cyhoeddus/ymgysylltu â'r cyfryngau; ymgysylltu â'r fasnach deithio mewn modd wedi'i dargedu.<br><br>Cydweithredu â VisitBritain/GREAT. | **Profi - 3 blynedd**<br><br>Integreiddio agosach â phartneriaid marchnata yng Nghymru yn weithredol ac ar y trywydd cywir. Datblygu a hyrwyddo llwybrau.<br><br>Cyflwyno prosiectau diriaethol gyda VisitBritain/GREAT. |
| **UDA** | Marchnad sy'n bwysig yn strategol i Gymru/brand Cymru.<br><br>Ansicrwydd yn y farchnad oherwydd ffactorau economaidd byd-eang. | Gweithgaredd Croeso Cymru gan ganolbwyntio ar weithgareddau rhwng busnesau a rhai gweithgareddau tactegol uwchlaw'r llinell<br>yn ogystal â VisitBritain/GREAT. | **Cynnal**<br>Parhau â'r rhaglen rhwng busnesau a'r rhaglen cysylltiadau cyhoeddus, gan ddatblygu a hyrwyddo cynhyrchion o ansawdd uchel.<br><br>Ystyried cyfleoedd ar gyfer partneriaethau mewn perthynas ag ymgyrchoedd tactegol wrth iddynt godi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Helpu i ddatblygu/hyrwyddo llwybrau gyda phartneriaid cwmnïau awyrennau a VisitBritain.<br><br>Datblygu prosiectau diriaethol gyda VisitBritain/GREAT.<br><br>Cyflwyno ymgyrch gydgysylltiedig gan y diwydiannau creadigol yng Nghymru - yn amodol ar gadarnhad o gyllideb/adnoddau. |
| **Rhyngwladol Arall** | Ni all Croeso Cymru dargedu pob un o'n marchnadoedd twf allweddol mewn modd rhagweithiol - ond mae'n ymgymryd â gweithgareddau proffil isel rhwng busnesau wedi'u hanelu at weithredwyr yn y farchnad hon.<br><br>Mae rhai o'r marchnadoedd hyn yn Farchnadoedd pwysig i Gymru y mae'n bwysig eu meithrin - Ffrainc, Awstralia.<br><br>Ar hyn o bryd, nid oes lefelau uchel o ymwelwyr o farchnadoedd newydd megis Tsieina, Japan yn dod i Gymru. Mae partneriaid - megis GREAT a Phrifysgolion Cymru hefyd yn weithgar yn | Croeso Cymru - gweithgareddau cyfyngedig rhwng busnesau yn ogystal â VisitBritain/GREAT. | **Partner**<br>Ymateb i gyfleoedd tactegol ar gyfer ymgyrchoedd / hyrwyddiadau estynedig wrth iddynt godi - e.e. Ewro 2016; Rownd Derfynol Cynghrair y Pencampwyr 2017.<br><br>Helpu i ddatblygu/hyrwyddo llwybrau gyda phartneriaid cwmnïau awyrennau a VisitBritain.<br><br>Darparu arweinyddiaeth fwy strategol i gydweithwyr o fewn Llywodraeth Cymru a phartneriaid strategol yng Nghymru, yn ogystal â VisitBritain a GREAT er mwyn ysgogi gwell canlyniadau gan y marchnadoedd hyn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | y marchnadoedd hyn. | | |
| **Golff** | Ffocws ar gynhyrchion 'niche' yn unig. Wedi cyflwyno elw cadarn ar fuddsoddiad dros gyfnod o ddeng mlynedd.<br><br>Partneriaeth gadarn ar waith gyda'r sector preifat. | Marchnata Defnyddwyr/rhwng Busnesau o dan arweiniad Croeso Cymru ar waith, gan gynnwys digwyddiadau, digidol, print a chyhoeddi. | **Rhoi'r gorau iddi**<br><br>Cynnal hyd at y Gystadleuaeth Agored i Bobl Hŷn, 2017 a'i drosglwyddo'n raddol i'r sector preifat. |
| **Digwyddiadau Busnes** | Gwerth uchel a thrawsbynciol gyda buddiannau gwirioneddol nid yn unig i dwristiaeth ond hefyd o ran mewnfuddsoddi, masnach a chyflogaeth.<br><br>Mae Cymru yn tanberfformio ar hyn o bryd - mae'r sector yn cynhyrchu £343m y flwyddyn ar hyn o bryd, sef dim ond 1.6% o werth y sector i'r DU.<br><br>Mae Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru yn cynnig momentwm - ond mae posibilrwydd y gellid tyfu'r farchnad hon yn sylweddol hyd yn oed heb y cyfleuster hwn. | O dan arweiniad Croeso Cymru/Partneriaid yng Nghymru: gweithgareddau lefel isel yn unig | **Cychwyn**<br><br>Sicrhau adnoddau ychwanegol er mwyn sefydlu a threialu model canolfan gynadledda 'Digwyddiadau Busnes Cymru'.<br><br>Hyrwyddo drwy Sectorau Llywodraeth Cymru.<br><br>Gweithio gyda phartneriaid cyrchfan/diwydiant yn y cyfamser. |